
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk

# Undod ac amrywiaeth



# Undod ac amrywiaeth

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Pob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; sefydliadau addysg a hyfforddiant athrawon; undebau athrawon a chyrff cynrychioliadol ysgolion; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; mudiadau cenedlaethol yng Nghymru ac eraill sydd â diddordeb mewn addysg. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ynglŷn â chyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, ac amrywiaeth ethnig, diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Yr Is-adran Cwricwlwm<br>Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Ffôn: 029 2082 1750<br>e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Ar gael o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau<br><br>Mae'r canllawiau hyn ar gael yn Saesneg hefyd. |

Cyf: CAD/GM/0095
ISBN: 978 0 7504 5410 0
A-EAC-02-01-qA806837/1/KE
© Hawlfraint y Goron Medi 2010

# Cynnwys


**Pam mae angen canllawiau?** **2**

**Ble dylai ysgolion ddechrau?** **9**
Polisi ac arfer 12
Tegwch a rhagoriaeth 13
Ymgysylltu â'r gymuned 14

**Nodweddion arfer da o ran hybu cydraddoldeb hiliol, ac amrywiaeth ethnig, diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol** **17**

**Sut mae ysgolion yn datblygu cwricwlwm ar gyfer hybu cydraddoldeb hiliol, ac amrywiaeth ethnig, diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol, ac yn cynnwys pob dysgwr?** **21**

**Beth sydd angen i athrawon ei wybod am addysgu iaith a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm?** **26**

**Beth yw'r cyfleoedd allweddol i hybu cydraddoldeb hiliol, ac amrywiaeth ethnig, diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol yn y cwricwlwm ysgol?** **27**

**Sut mae ysgolion yn gwybod eu bod yn llwyddo i hybu cydraddoldeb hiliol, ac amrywiaeth ethnig, diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol?** **30**

**Atodiad 1** **32**
Rhestr termau
**Atodiad 2** **39**
Cyfleoedd yn y cwricwlwm ysgol
**Atodiad 3** **54**
Cyfleoedd yn y Llwybrau Dysgu 14–19
**Atodiad 4** **60**
Amrywiaeth mewn lleoliadau/ysgolion y Cyfnod Sylfaen – dull o hunanwerthuso
**Atodiad 5** **62**
Asesu testunau i'w defnyddio yn yr ysgol
**Atodiad 6** **63**
Fframwaith i gefnogi'r gwaith o gynllunio iaith a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm
**Atodiad 7** **64**
Syniadau ychwanegol ar gyfer cynorthwyo dysgwyr y mae'r Gymraeg/Saesneg yn iaith ychwanegol iddyn nhw

**Cydnabyddiaethau** **65**


**SYLWER:** Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bob darparwr dysgu, gan gynnwys lleoliadau y Cyfnod Sylfaen, ysgolion a cholegau, ond defnyddir 'ysgolion' fel term cyffredinol trwy'r ddogfen. Yn yr un modd, bydd cyfeiriadau at 'athrawon' yn cynnwys ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen a phob aelod staff sy'n gweithio gyda dysgwyr yn unrhyw un o'r lleoliadau uchod.

## Pam mae angen canllawiau?

**'Dylai addysg amcanu datblygu personoliaeth llawn yr unigolyn a chryfhau parch i hawliau dynol a'r rhyddfreintiau sylfaenol. Dylai hyrwyddo dealltwriaeth, goddefgarwch a chyfeillgarwch ymysg yr holl genhedloedd ac ymysg grwpiau hiliol neu grefyddol, a dylai hefyd hyrwyddo gwaith y Cenhedloedd Unedig dros heddwch . . . '**

Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, Erthygl 26 (2)

Mae cyfrifoldeb ar bob ysgol a darparwr dysgu i ateb anghenion amrywiol pob dysgwr. Mae'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol wrth wraidd pwysigrwydd dull cyfannol o addysgu sy'n adlewyrchu hawl i gyfle cyfartal, addysg o safon gyda chwricwlwm eang a chynhwysol, a hawl i barch tuag at hunaniaeth ynghyd â hawliau cyfranogi.

Nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gweledigaeth gyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc yn *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau* (2004). Mae'r weledigaeth hon wedi'i seilio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac mae'n cynnwys saith nod craidd sydd â'r bwriad o geisio sicrhau:

- bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael dechrau teg mewn bywyd
- eu bod yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysgol a dysgu
- bod eu hiechyd yr un gorau posibl ac nad ydyn nhw yn dioddef camdriniaeth, erledigaeth nac ymelwad
- bod gweithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol ar gael iddyn nhw
- y gwrandewir arnyn nhw, eu bod yn cael eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
- bod ganddyn nhw gartref a chymuned sy'n ddiogel ac sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
- nad ydyn nhw yn cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi.

Er mwyn cefnogi'r weledigaeth a fynegir yn *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau* a sicrhau bod dysgwyr yn cael addysg sy'n datblygu eu potensial yn llawn, mae'r datganiad 'Cynnwys pob dysgwr' yn y cwricwlwm yn nodi, yn unol â Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, bod dyletswydd ar ysgolion yng Nghymru i:

- ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu, a hybu ymagwedd gadarnhaol
- hybu cyfle cyfartal ac annog cyfranogiad ym mhob maes o fywyd ysgol.

Crynhoir y gofynion fel a ganlyn.

Dylai pob dysgwr ddatblygu ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n barod i dderbyn pobl eraill a dangos parch atyn nhw. Ym mhob pwnc, dylai darparwyr dysgu gynllunio i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth, y sgiliau, y gwerthoedd a'r agweddau a fydd yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn ein cymdeithas amlethnig yng Nghymru. Dylen nhw ddatblygu dulliau sy'n hybu hunaniaethau ethnig/diwylliannol pob dysgwr ac sy'n adlewyrchu ystod o safbwyntiau, er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr a'u paratoi ar gyfer bywyd fel dinasyddion byd-eang.

Yn ogystal, mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn egluro hawliau pob plentyn a pherson ifanc (0–18) o ran trefniadau amddiffyn, darpariaeth a'r gallu i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sail ar gyfer ei holl bolisïau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, ac mae wedi cynhyrchu cynllun gweithredu, *Gwneud Pethau'n Iawn* (2009), sy'n dangos sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo ac yn gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru. Gellir dod o hyd i'r ddogfen ar www.cymru.gov.uk dan 'Gwneud pethau'n iawn 2009: cynllun pum mlynedd' yn yr adran 'Cyhoeddiadau' dan y pennawd 'Plant a phobl ifanc'.

Efallai bydd cynllunio ar gyfer amrywiaeth yn gosod heriau i ysgolion a darparwyr dysgu, yn arbennig o ran cynllunio cwricwlwm sy'n berthnasol ac un sy'n ennyn diddordeb pob dysgwr. Nod y canllawiau hyn yw cynorthwyo ysgolion wrth iddyn nhw gydbwyso gofynion y cwricwlwm ysgol yng Nghymru gydag anghenion bob dysgwr. Mae'n bwysig cadw mewn cof nad yw dysgwyr yn ffitio'n dwt i mewn i gategorïau ac efallai bydd gan rai aml-hunaniaethau, fydd yn esgor ar anghenion gwahanol – er enghraifft, dod o grŵp ethnig lleiafrifol ond hefyd ag anabledd. Trin dysgwyr yn ôl eu hanghenion unigol yw cyfle cyfartal, nid rhagdybio na chyffredinoli ynghylch eu hanghenion oherwydd eu bod nhw'n perthyn i grŵp lleiafrifol neilltuol. Mae angen, fodd bynnag, monitro cyrhaeddiad a deilliannau grwpiau lleiafrifol gwahanol er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu cael mynediad llawn a hawliau cyfranogi.

Yn 2001, cyhoeddodd ACCAC (nawr yn rhan o'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru) *Cyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru*. Roedd hwn yn canolbwyntio ar y cyfleoedd a oedd ar gael yn y cwricwlwm ysgol ar gyfer addysgu a dysgu am gydraddoldeb ac amrywiaeth o ran anabledd, hil a rhyw, ac ar gyfer herio rhagfarn a stereoteipio mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach.

Erbyn 2005, roedd Estyn[1] wedi darganfod mai dim ond lleiafrif o ysgolion a oedd wedi defnyddio'r canllawiau hyn yn effeithiol. Roedd yr ysgolion hyn yn tueddu i fod y rhai hynny a oedd â nifer sylweddol o ddysgwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a oedd wedi datblygu ffyrdd o fynd i'r afael â gwahaniaethu a stereoteipio trwy eu mentrau arbennig eu hunain, gan wneud dysgwyr yn ymwybodol o'r ffaith fod hiliaeth yn anghyfreithlon, a rhoi iddyn nhw wybodaeth fwy helaeth o'r hyn mae'n ei gwmpasu a sut i'w herio.

---

[1] *Arweiniad atodol ar arolygu cydraddoldeb hiliol, hyrwyddo perthynas dda a Saesneg fel iaith ychwanegol* (Estyn, 2005)

Mae'r ddogfen hon yn tynnu sylw at gynnwys perthnasol o'r Gorchmynion pwnc a'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru*, *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* a'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Mae'n defnyddio'r arferion da sydd eisoes yn bodoli mewn nifer o awdurdodau lleol ac ysgolion ledled Cymru a'r arweiniad a roddir yn y ddogfen gyffredinol *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Dylai gynorthwyo ysgolion a darparwyr dysgu i archwilio'u cynlluniau cwricwlwm, fel man cychwyn i ddatblygu ymhellach.

Mae gan ysgolion swyddogaeth hanfodol i'w chyflawni o ran datblygu cydlyniant cymunedol trwy greu amgylcheddau a nodweddir gan barch a goddefgarwch hiliol a thrwy baratoi dysgwyr i fod yn ddinasyddion effeithiol. Mae hyn yn amlwg yn cynnwys themâu trawsbynciol Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef cyfle cyfartal, ac addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cydnabod y swyddogaeth ganolog mae ysgolion yn ei chyflawni o ran creu ysbryd cymunedol, ynghyd â chyfranogiad gweithredol pawb yn y gymdogaeth. Mae'n darparu canllaw cynhwysfawr yn y ddogfen *Ysgolion Bro: Gwneud Pethau Ddigwydd* (2006).

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru Gyfan, sy'n nodi:

> Yn ei hanfod mae cydlyniant cymunedol yn disgrifio sut mae pobl sy'n byw a gweithio yn yr un lle yn gyrru ymlaen â'i gilydd. Mae'n ymwneud â'r gwerthoedd cyffredin sy'n ein huno ni.
>
> Mae swyddogaeth arbennig o bwysig i'r cwricwlwm o ran sicrhau fod dysgwyr yn meddu ar ymdeimlad cryfach o berthyn i'w cymuned leol a'u gwlad ac ar yr un pryd yn dysgu gwerthfawrogi a pharchu diwylliannau a thraddodiadau eraill tu hwnt i'w profiad uniongyrchol.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Un Wrecsam – Siarter Perthyn**

Gall asiantaethau statudol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, a busnesau 'gefnogi' 'Un Wrecsam – Siarter Perthyn', sef tystysgrif un dudalen sy'n rhoi datganiad o werthoedd ac ymrwymiad. Mae'n rhoi cyfle i ysgolion, colegau, busnesau, sefydliadau cymorth, grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cymdeithasau preswylwyr, grwpiau chwarae, eglwysi a grwpiau ffydd lleol ymuno â chyrff ac asiantaethau cyhoeddus i wneud datganiad cadarnhaol yn erbyn trin unrhyw un yn annheg gan gydnabod eu rhan ar yr un pryd mewn gwneud Wrecsam yn lle croesawus a diogel i bawb. Mae fersiynau o'r Siarter wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae hunaniaeth a diwylliant yn un o themâu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF) ac mae'n datblygu cysyniadau allweddol amrywiaeth, anghenion a hawliau, ansawdd bywyd, gwerthoedd a chanfyddiadau, a rhyngddibyniaeth er mwyn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr archwilio materion yn ymwneud â hil ac amrywiaeth. Amlinellir y rhain yn y ddogfen wybodaeth *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang – Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer Ysgolion* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) sy'n atgyfnerthu'r egwyddorion sydd ynghlwm wrth hybu cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth, ac yn mapio cyfleoedd i ddysgwyr feithrin sgiliau ar draws y cwricwlwm ym mhob cyfnod allweddol.

Mae ADCDF yn cynorthwyo dysgwyr i ddeall effaith eu penderfyniadau, a sylweddoli nad yw anghenion a hawliau bob amser yn gyfartal trwy'r byd, yn ogystal â sut mae materion amgylcheddol yn effeithio ar bob un ohonon ni. Mae angen agwedd ysgol gyfan yn ogystal â phartneriaethau ag eraill y tu allan i'r ysgol.

Ar lefel ysgolion, cyflwynir ADCDF trwy weithgareddau'r ystafell ddosbarth, mentrau'r ysgol gyfan a'r partneriaethau mae'r ysgol yn eu datblygu er mwyn gwella'r addysg gyfannol mae'n ei darparu. Mae gan Gymru hanes hir o amrywiaeth a mewnfudo. Mae dysgwyr o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig heb fawr ddim gwybodaeth o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, neu ddim o gwbl, yn parhau i symud i ardaloedd Cymraeg eu hiaith, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae grwpiau newydd o deuluoedd yn mewnfudo i wahanol rannau o Gymru, gan gynnwys y rhai sy'n ceisio lloches a'r bobl sy'n dod dan y cytundeb Ewropeaidd. O ganlyniad, mae llawer o ysgolion a darparwyr dysgu yng Nghymru yn profi mwy o amrywiaeth ethnig a diwylliannol nag yn y gorffennol.

Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos yr ethos positif a ddatblygwyd i groesawu pob dysgwr mewn ysgol uwchradd yng Ngogledd Cymru.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Ysgol uwchradd sydd wedi'i lleoli mewn ardal lle siaredir Cymraeg yn bennaf (420 o ddysgwyr)**

Mae'r ysgol yn rhoi'r dysgwr yn gyntaf, gydag ymrwymiad i warchod ei les, ac mae'n darparu ar gyfer amrywiaeth ehangach o anghenion, megis anawsterau dysgu, a phroblemau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl, ynghyd ag effeithiau amddifadu cymdeithasol. Mae gan yr ysgol nifer uchel o blant sy'n derbyn gofal a gofalwyr ifanc. Atgyfnerthir parch ac agwedd gadarnhaol at yr hunan ac eraill trwy gynnal gwasanaethau i'r ysgol gyfan ac addoliad ar y cyd. Mae'r sesiwn reolaidd 'munud i feddwl' yn rhoi cyfle i'r dysgwyr feddwl am faterion cyfoes, megis urddo Barack Obama a sut gallai hyn wireddu breuddwyd Martin Luther King o gaffael hawliau sifil. Mae gwaith yng nghyfleoedd addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) a'r cwricwlwm, megis mewn llenyddiaeth Gymraeg/Saesneg, yn darparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer trafod themâu cydraddoldeb ac amrywiaeth. Ceir system fugeilio gref sy'n cynnwys ymagwedd ragweithiol ar gyfer cefnogi dysgwyr, gan ddefnyddio cyfoedion fel mentoriaid a rhoi sylw gofalus i ddosbarthiad grwpiau. Ni osodir y dysgwyr mewn ffrydiau iaith o fewn ethos cynhwysol yr ysgol. Er mwyn integreiddio cymaint â phosibl a chreu amgylchedd cymdeithasol cadarnhaol, mae'r ysgol yn trysori cefndir ieithyddol, diwylliannol a chrefyddol pob dysgwr, gyda llawer ohonyn nhw wedi symud i Wynedd o ardaloedd eraill y Deyrnas Unedig.

Nod y staff yw datblygu hyder dysgwyr wrth ddefnyddio eu hiaith(ieithoedd) ychwanegol. Bydd sawl dysgwr Cyfnod Allweddol 3 wedi mynychu'r ganolfan iaith[2] i gael cymorth ychwanegol i ddysgu Cymraeg, a bydd cymorth ieithyddol yn parhau ar gyfer y dysgwyr hyn, yn ogystal ag ar gyfer dysgwyr sy'n cyrraedd yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Mae cymorth ieithyddol yn cynnwys defnyddio Cymraeg a Saesneg yn ofalus mewn gwersi pwnc, gosod targedau priodol a monitro'n ofalus. Mae grwpiau iaith anffurfiol yn cwrdd am sgwrs ar ddechrau'r diwrnod. Addysgir y Cwricwlwm Cymreig gyda phwyslais ar hunaniaeth unigol, ac mae'r ysgol yn gweithio i ddatblygu synnwyr o fod yn perthyn a balchder yn yr hunan, yr ysgol a'r gymuned. Mae trefniadau bugeiliol cryf yr ysgol yn darparu ar gyfer lles yr holl ddysgwyr, ac yn cadw mewn cof yr angen i ddiwallu eu holl anghenion gan gynnwys y rhai sy'n deillio o amrywiaeth crefyddol a diwylliannol.

[2] Mae gan Wynedd bolisi o ddarparu cymorth dwys i nifer o ddysgwyr sy'n ymuno â'i hysgolion heb fod yn siarad Cymraeg, trwy sesiynau cynefino yn ei Chanolfannau Iaith Cynradd, ac i rai dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 yn ei hunig Canolfan Iaith Uwchradd.

Er mwyn cynorthwyo ysgolion i gwrdd ag anghenion pob dysgwr, mae Consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru, ar ran Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC), yn datblygu Dyfarniad Ysgolion Cynhwysol er mwyn darparu fframwaith datblygiadol i gynorthwyo ysgolion i ddathlu arfer da o ran cynhwysiad a nodi meysydd i'w datblygu ymhellach. Bydd y dyfarniad yn gysylltiedig â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a bydd yn gyson â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn ar gyfer 2010.

Rhaid cydnabod gwerth mamiaith pob dysgwr ac adlewyrchu hyn ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Gall cymryd rhan mewn dathliadau megis Diwrnod Ieithoedd Ewrop Cyngor Ewrop ddarparu cyfleoedd ar gyfer atgyfnerthu pwysigrwydd dysgu ieithoedd, amlieithrwydd a dealltwriaeth ryng-ddiwylliannol (gweler www.coe.int/EDL ac *Ieithoedd tramor modern: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)).

## ASTUDIAETH ACHOS

**Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg (390 o ddysgwyr)**

Mae bron pob dysgwr yn wyn ac yn Gymro, ac mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar hybu cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth ddiwylliannol fel agwedd bwysig ar ddysgu trawsgwricwlaidd a'i gwneud yn rhan annatod o fywyd beunyddiol yr ysgol.

**Pam?**

- Er mwyn gwella a chyfoethogi'r cwricwlwm a addysgir, ac ysgogi'r plant i ddod i wybod am ddiwylliannau/cymunedau eraill.
- Er mwyn hybu cymuned ysgol ofalgar lle mae'r dysgwyr yn parchu amrywiaeth fel nad yw'n ymddangos fel rhywbeth bygythiol.
- I wella cydlyniad cymunedol – mae ystadegau yng nghymoedd De Cymru yn adlewyrchu lefel uchel o hiliaeth ac ymosodiadau hiliol.

**Sut?**

- Trwy ddefnyddio strategaethau sy'n berthnasol ac yn ystyrlon i bob oedran ac sy'n adlewyrchu synnwyr cryf y dysgwyr o gymuned.
- Trwy ddefnyddio profiadau go iawn pa bryd bynnag y bo hynny'n bosibl, yn unol â pholisi dysgu ac addysgu yr ysgol.

**Beth yw'r sefyllfa erbyn hyn?**

Cynhaliwyd archwiliad trylwyr o:

- agweddau a gwybodaeth aelodau'r staff
- adnoddau ar draws pob maes o'r cwricwlwm
- unrhyw weithgareddau neu fentrau cyfredol y gellid eu datblygu – er enghraifft, partneriaethau Ewropeaidd ag ysgolion yn Berlin a Sweden a ariennir gan Comenius
- cynlluniau gwaith a dogfennau polisi
- datganiad nodau a gweledigaeth yr ysgol
- gweithdrefnau a pholisïau ar gyfer cynnwys a chydgysylltu â llywodraethwyr, rhieni/ofalwyr a'r gymuned.

**Beth nesaf?**

- Cynnwys gwaith yng nghynllun datblygu tair blynedd yr ysgol, gan dargedu gwahanol elfennau bob blwyddyn – er enghraifft, hyfforddiant staff ac ymweliadau, datblygu adnoddau, ymweliadau a phrofiadau, a chyfoethogi'r cwricwlwm.
- Gwneud cysylltiadau:
  - gydag ysgolion eraill – er enghraifft, gydag ysgol amlhiliol mewn awdurdod arall, gydag ysgolion yn Ewrop/Affrica
  - gydag asiantaethau eraill a allai gynorthwyo – er enghraifft, Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd (VALREC), Cyfanfyd (www.cyfanfyd.org.uk).

Mae'r ysgol wedi cyflawni Dyfarniad Ysgolion Rhyngwladol y Cyngor Prydeinig/yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF) am ei gwaith gyda gwahanol wledydd, ac mae wedi blaenoriaethu ei hymrwymiad i gydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth ddiwylliannol. Trwy ddarparu profiadau cyfoethog ac ysgogol i gefnogi datblygu ffordd o feddwl, cwestiynu a gallu'r dysgwyr i herio ffordd o feddwl pobl eraill, nod yr ysgol yw helpu i ffurfio dinasyddion llawn parch ac eangfrydig ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

# Ble dylai ysgolion ddechrau?

Bydd amrywiaeth sylweddol o ran y man cychwyn ar gyfer ysgolion unigol. Efallai bydd ysgolion yn canfod ei bod yn ddefnyddiol archwilio eu sefyllfa bresennol, a defnyddio'r adnoddau a ddarperir neu y cyfeirir atyn nhw yn y canllawiau hyn i hwyluso datblygiad pellach. Fodd bynnag, rhaid i egwyddorion hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth fod yn rhan annatod o waith yr ysgol o ddydd i ddydd.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg (470 o ddysgwyr)**

Mae'r ysgol wedi diwygio ei chwricwlwm er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar sgiliau. Yn eu cynllunio, maen nhw yn rhoi blaenoriaeth i'r Cwricwlwm Cymreig, gan ddefnyddio hwn fel sail i edrych ar gyffelybiaethau â gwledydd a diwylliannau eraill. Maen nhw wedi cyflawni Dyfarniad Ysgolion Rhyngwladol y Cyngor Prydeinig/yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF) ar gyfer y dimensiwn rhyngwladol hwn. Mae'r ysgol yn ystyried bod eu harchwiliad o wahanol wledydd a diwylliannau yn hanfodol bwysig gan mai dim ond nifer fechan o ddysgwyr (tua 15) o gefndiroedd diwylliannol gwahanol sydd yn yr ysgol, gan gynnwys plant o Uwganda, Tsieina, Gwlad Thai, Yr Iseldiroedd ac Ynysoedd y Philippines.

Cysylltir pob grŵp blwyddyn yn yr ysgol â gwahanol wlad, fel a ganlyn.

- Meithrin/derbyn – Moroco
- Blwyddyn 1 – India
- Blwyddyn 2 – Lesotho
- Blwyddyn 3 – Tsieina
- Blwyddyn 4 – Awstralia
- Blwyddyn 5 – Uwganda

Mae Blwyddyn 6 yn dilyn y thema 'Ble yn y byd?' a allai gynnwys gwledydd nad oedden nhw wedi eu hastudio'n flaenorol, neu leoedd arbennig o berthnasol oherwydd digwyddiadau cyfredol.

Mewn sawl achos, mae gan yr athrawon dosbarth brofiad uniongyrchol o'u gwlad – er enghraifft, treuliodd athro Blwyddyn 2 chwe mis yn Lesotho yn ddiweddar. Mae gan yr ysgol gysylltiad ag Uwganda hefyd, gan ei bod wedi estyn croeso i athrawon a oedd yn ymweld ac wedi sefydlu cysylltiad ag ysgol yn Uwganda. Defnyddir y wlad a enwir ar draws y cwricwlwm fel symbyliad ac i ddarparu gwahanol gyd-destunau ar gyfer gwaith. Er enghraifft, mae un dosbarth wedi cyfnewid data ar y tywydd a'r tymheredd gyda'r ysgol yn Uwganda. Mewn prosiect dylunio a thechnoleg Blwyddyn 2 diweddar, dyluniodd y dysgwyr gar a oedd yn addas ar gyfer lonydd Lesotho. Cymharwyd y lonydd hyn â lonydd mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru, gan benderfynu ar y nodweddion byddai eu hangen ar y car ar gyfer gwahanol dirwedd. Anfonwyd eu dyluniadau i Lesotho, gan ystyried yr adborth a gafwyd wrth newid eu dyluniadau. Ar y diwedd, adeiladwyd modelau ganddyn nhw i'w profi ac i'w mireinio ymhellach.

Mae pum prosiect ychwanegol bob blwyddyn yn cefnogi'r dimensiwn rhyngwladol parhaus ar draws yr ysgol gyfan, gyda themâu megis dathliadau. Bob haf, mae 'Diwrnod y Byd' yn rhoi profiad dilys o fwyd, gwisg, arferion, celf a cherddoriaeth ac ati o bob rhan o'r byd, ac mae llawer o bobl yn ymweld â'r ysgol. Mae hyn yn symbyliad ar gyfer mwy o waith ar draws y cwricwlwm.



**Pwyntiau allweddol:** Mae astudiaeth o amrywiaeth o wledydd a diwylliannau yn rhan annatod o'r holl gynllunio cwricwlwm. Mae defnyddio gwybodaeth, profiad ac adnoddau'r athrawon eu hunain (yn dilyn archwiliad), a nodi gwlad i'r grŵp blwyddyn ganolbwyntio arni, o gymorth i hwyluso'r gwaith hwn.

Mae Canllawiau Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) ar Addysg Ryngddiwylliannol (2006) yn pwysleisio y gall addysg wneud cyfraniad pwysig ac ystyrlon i gymdeithasau cynaliadwy a goddefgar. Maen nhw'n amlinellu'r tair egwyddor ganlynol.

- Mae addysg ryngddiwylliannol yn parchu hunaniaeth ddiwylliannol y dysgwr drwy ddarparu addysg o safon sy'n ddiwylliannol addas ac ymatebol ar gyfer pawb.
- Mae addysg ryngddiwylliannol yn darparu ar gyfer pob dysgwr yr wybodaeth ddiwylliannol, yr agweddau a'r sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn llwyddo i chwarae rhan weithredol a llawn mewn cymdeithas.
- Mae addysg ryngddiwylliannol yn darparu ar gyfer yr holl ddysgwyr yr wybodaeth ddiwylliannol, yr agweddau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i gyfrannu tuag at barch, dealltwriaeth a chydgefnogaeth rhwng unigolion, grwpiau ethnig, cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol a chenhedloedd.

Mae'n rhaid i ysgolion a darparwyr dysgu felly nid yn unig ateb anghenion amrywiol eu dysgwyr ond hefyd baratoi bob dysgwr ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang a bywyd yng Nghymru/Prydain amlhiliol.

Canfuwyd bod dwy agwedd gyd-destunol yn effeithio'n sylweddol ar effeithiolrwydd gwaith cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth.

**Safbwynt**

Efallai fod staff ysgolion yn credu eu bod nhw'n hybu dealltwriaeth o gydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth trwy addysgu am 'wahanol ddiwylliannau' neu am 'wahaniaethau diwylliannol', pan fyddan nhw'n gweithio gyda phobl ac adnoddau priodol. Fodd bynnag, y ffordd y cyflwynir yr wybodaeth sydd yn aml yn penderfynu pa negeseuon mae dysgwyr yn eu derbyn. Weithiau mae 'amrywiaeth ddiwylliannol' yn cael ei chyflwyno fel rhywbeth 'egsotig' neu 'ar wahân' neu mewn ffordd braidd yn nawddoglyd. Nid yw hyn yn dderbyniol a dylai dysgwyr ddeall a derbyn amrywiaeth fel rhan arferol o fywyd pob dydd.

Gallai profiadau cymdeithasol a diwylliannol staff ysgolion ddylanwadu'n ddiarwybod ar y ffordd maen nhw'n amgyffred gwahanol grwpiau dysgu, gan effeithio ar y ffordd y mynegir barn. Er mwyn osgoi amgyffred unrhyw ragfarn, dylai staff ysgolion fod yn ymwybodol o hyn, ac ystyried pa un a yw eu system gwerthoedd/cred nhw eu hunain yn rhagdybio diwylliant goruchafol nad yw pawb, efallai, yn ei rannu. Gallai dulliau gwaith cyfranogol fod yn ddefnyddiol yma i archwilio gwerthoedd a chanfyddiadau athrawon a dysgwyr yng nghyd-destun ADCDF.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Gŵyl Tapestri Bywyd a Ffydd Ysgolion Wrecsam**

Cynhelir Gŵyl Tapestri Bywyd a Ffydd Ysgolion Wrecsam bob dwy flynedd i ddathlu'r amrywiaeth grefyddol, ddiwylliannol ac ieithyddol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Ym mis Gorffennaf 2007, bu tua 7,500 o ddysgwyr yn cymryd rhan. Cynhaliwyd digwyddiadau a gweithdai i ddysgwyr ac athrawon archwilio eu diwylliannau a'u traddodiadau eu hunain ac eraill, a sicrhau bod dysgwyr yn deall a pharchu amrywiaeth. Mae'r ŵyl yn ceisio cynyddu'r ymdeimlad o berthyn ar gyfer pob dysgwr a'u helpu i deimlo'n rhan o'r gymuned.

**Defnydd o iaith**

Cyfathrebir safbwynt penodol trwy'r ieithwedd a'r eirfa mae staff ysgolion, cyflwynwyr a/neu adnoddau yn eu defnyddio. Gallai addasu defnydd o iaith gael ei ystyried fel mater o fod yn 'wleidyddol gywir', ond pan fo athrawon yn defnyddio mathau penodol o ieithwedd, gallai dysgwyr gamddeall. Er enghraifft, os dywedwn fod 'ganddyn nhw fosgiau', a bod 'gennym ni eglwysi', rydyn ni'n nodi grwpiau fel 'ni' a 'nhw'. Mae'n arfer gwell dweud 'mae rhai pobl yn addoli mewn mosgiau, a rhai mewn eglwysi' er mwyn osgoi defnyddio ieithwedd sy'n awgrymu mai safbwyntiau un grŵp o bobl yw'r norm y bernir ffyrdd eraill o fyw yn ei erbyn. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o gyd-destun y sylw a diben y gosodiad.

Dylai ysgolion gytuno ar derminoleg a thrafod pa ieithwedd sy'n briodol i'w defnyddio wrth drafod meysydd sensitif neu ddadleuol. Fe allai'r rhestr termau yn Atodiad 1 fod yn fan cychwyn defnyddiol i drafodaethau.

## Polisi ac arfer

Dylai cynllunio datblygu ysgol ystyried anghenion arbennig y grwpiau dysgu amrywiol a gynrychiolir mewn ysgol. Dylai hyn gael ei seilio ar asesiad o anghenion dysgwyr o bob gefndir, o gofio unwaith eto efallai bydd gan ddysgwyr aml-hunaniaethau. Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r rhyngweithiad cymhleth sy'n bodoli rhwng ffactorau megis anabledd, hil, rhyw ac ailgyfeiriad rhyw, oedran, crefydd a chred ac anghred, cyfeiriadedd rhywiol a hawliau dynol, a dylen nhw gymryd camau i atal effaith sylweddol statws cymdeithasol-economaidd ar gyflawni. Trwy wneud hyn, dylen nhw gynnal disgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr.

Ym mhob polisi perthnasol, rhaid i ysgolion ystyried anghenion arbennig dysgwyr o wahanol gefndiroedd, gan gynnwys rhoi cyfleoedd iddyn nhw ddysgu a chadw eu mamiaith pan fo hynny'n bosibl.

Bydd arweiniad cadarn sy'n canolbwyntio ar hybu cyfle cyfartal ar gyfer pob dysgwr o gymorth i ddatblygu ethos sy'n dathlu amrywiaeth. Bydd hyn, ynghyd â dull 'dim goddefgarwch' ar gyfer pob math o wahaniaethau, a chwricwlwm priodol, yn lleihau rhwystrau i ddysgu ar gyfer dysgwyr a fyddai fel arall dan anfantais. Bydd hyfforddiant ac ymgysylltiad pob aelod o staff ysgol â pholisi ac arfer cydraddoldeb hiliol yn yr ysgol yn hybu ymhellach agenda o gydraddoldeb, tegwch a pharch ar gyfer pob dysgwr.

## Tegwch a rhagoriaeth

Dylai polisïau derbyn mewn ysgolion gael eu seilio ar egwyddorion cyfle cyfartal, ac ni ddylen nhw mewn unrhyw ffordd gynrychioli sefyllfa a allai atal rhieni/ofalwyr o unrhyw gefndir rhag ceisio lleoedd yn yr ysgol. Gall ysgolion sydd yn gyfreithiol wedi'u dynodi fel rhai sydd â chymeriad crefyddol roi blaenoriaeth i aelodau o'u ffydd (gan ddefnyddio meini prawf agored a theg) os oes gormod o geisiadau am leoedd. Mae ysgolion o'r fath yn fwyfwy bodlon i dderbyn dysgwyr nad ydyn nhw o'r ffydd lle mae'r amgylchiadau'n caniatáu hynny. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion sydd â chymeriad crefyddol yn hyrwyddo cydraddoldeb a chydlyniant cymunedol trwy weithio gyda rhieni/ofalwyr a'r gymuned ehangach, a thrwy bartneriaethau ag ysgolion a grwpiau eraill.

Mae'n rhaid i bob ysgol fod wedi sefydlu dulliau effeithiol ar gyfer ymdrin â digwyddiadau o ragfarn, bwlio ac aflonyddu mewn perthynas â phob un maes o Ddeddf Cydraddoldeb 2006. Dylai hyn gynnwys monitro cosbau a gwaharddiadau yn ofalus er mwyn canfod a yw dysgwyr mewn grwpiau penodol yn dioddef hyn yn amlach. Dylai gwaith monitro o'r fath gael ei gefnogi gan bolisïau ymddygiad a disgyblu priodol er mwyn mynd i'r afael â materion o'r fath pan y'u canfyddir. Dylai'r ymateb i ddigwyddiadau o'r fath nid yn unig fod yn gosbol, ond dylid ei hystyried yn gyfle i roi sylw i agweddau a gwerthoedd trwy weithgareddau sy'n datblygu ffordd o feddwl a chyfathrebu sy'n briodol ar gyfer oedran/cyfnod dysgwr – er enghraifft, amser cylch, trafodaeth athronyddol, ADCDF.

Dylai ysgolion ganolbwyntio ar sicrhau safonau uchel o gyflawni ar gyfer pob dysgwr o bob cefndir, gan sicrhau eu bod nhw i gyd yn cael eu trin â pharch a'u bod nhw'n cael eu cefnogi'n briodol i gyflawni eu llawn botensial. Dylid dadansoddi cynnydd dysgwyr er mwyn sicrhau y gellir nodi a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cyflawni neu anfantais cyn gynted ag y bo modd.

## Ymgysylltu â'r gymuned

### Rhwng ysgolion

Mae llawer o ffyrdd gall ysgolion ymgysylltu'n weithredol â'r gymuned ehangach i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Er enghraifft, gall ysgolion elwa ar drefniadau partneriaeth sy'n eu galluogi i rannu eu harfer da a rhoi'r cyfle i ddysgwyr gwrdd â phobl ifanc o gefndiroedd gwahanol ac i ddysgu gyda nhw. Gallai'r cysylltiadau hyn fod o fewn grwpiau clwstwr neu â gwahanol fath o ysgol, naill ai yn lleol neu'n bellach i ffwrdd – er enghraifft, un sy'n gwasanaethu gwahanol gymunedau mewn dinas, sir neu ranbarth. Gall cysylltiadau Ewropeaidd neu ryngwladol hefyd ddarparu profiadau priodol, ar yr amod eu bod nhw'n gytbwys ac yn rhoi cyfle i'r ddwy ochr ddysgu gan y naill a'r llall.

Wrth ddatblygu trefniadau partneriaeth, mae angen i ysgolion reoli'r ymgysylltu'n briodol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gallu cwrdd a rhyngweithio mewn amgylchedd priodol. Wrth weithio gyda phobl o'r tu allan i'r ysgol, mae'n rhaid gofalu bod dysgwyr yn cael eu diogelu – er enghraifft, trwy wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a goruchwyliaeth briodol – a dylai ymwelwyr fod yn glir ynglŷn ag ethos a gwerthoedd yr ysgol. Dylai unrhyw weithgareddau o'r fath fod ag amcanion dysgu eglur, a dylid eu dilyn gyda gwerthuso adborth a rhannu'r canlyniadau mor eang â phosibl.

Mae'r enghreifftiau gorau wedi eu cynnwys mewn cynlluniau gwaith sydd eisoes yn bodoli ac wedi eu sefydlu yn y cwricwlwm. Mae cyfleoedd i ddysgwyr weithio gyda'i gilydd ar broject neu weithgaredd ar y cyd a rhannu cyfleusterau, fel ag y mae cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau rhyng-ddiwylliannol ystyrlon, megis chwaraeon a drama, yn galluogi dysgwyr i ryngweithio. Mae *Addysg grefyddol: Canllawiau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009) yn cynnwys astudiaethau achos o ddulliau o ddarparu addysg grefyddol statudol ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru trwy'r ysgol gyfan/consortia. Mae'r astudiaethau achos yn cynnwys enghreifftiau o deithiau cyfnewid rhyngwladol, archwilio cwestiynau ynghylch gwrthdaro, heddwch, anghydraddoldeb a chyfiawnder, islamoffobia, eco-twristiaeth/twristiaeth foesegol, a sut mae dealltwriaeth aml-ffydd/amlddiwylliannol yn ymwneud â dysgu gydol oes a'r byd gwaith.

## Gyda rhieni/ofalwyr a'r gymuned

Mae rhai enghreifftiau o weithgareddau partneriaeth dda â'r gymuned leol a'r gymuned ehangach yn cynnwys:

- gweithio gyda chynrychiolwyr cymunedau – er enghraifft, trwy gynlluniau mentora
- nodi cynrychiolwyr cymunedau sy'n gosod enghraifft dda a cheisio eu cynnwys o fewn yr ysgol – er enghraifft, i weithio gyda dysgwyr er mwyn atal swyddogaethau stereoteip ac i godi uchelgais
- sicrhau bod llais y dysgwr yn cael ei glywed yn effeithiol mewn unrhyw materion efallai bydd yn effeithio arno
- cynnal cysylltiadau cryf rhwng yr ysgol ac asiantaethau lleol eraill, megis y gwasanaeth ieuenctid, yr heddlu, a gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd
- trefnu lleoliadau ar gyfer dysgwyr mewn gweithgareddau cymunedol gwirfoddol
- ymgysylltu â rhieni/ofalwyr trwy gyfleoedd, megis digwyddiadau cymdeithasol, nosweithiau cwricwlwm, cyrsiau rhianta a gwaith cyswllt teulu
- darparu rhieni/ofalwyr gyda rhaglen gynefino i'r ysgol, pecynnau croeso a sesiynau gyda Hyrwyddwyr Ffoaduriaid
- darparu gwasanaethau estynedig sy'n dod â rhieni/ofalwyr o wahanol gefndiroedd at ei gilydd trwy ddefnydd y gymuned o gyfleusterau – er enghraifft, chwaraeon a gweithgareddau hamdden; dysgu oedolion a theuluoedd, gan gynnwys dosbarthiadau TGCh, dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), yn ogystal â dosbarthiadau rhad ac am ddim sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddysgu a chadw eu mamiaith.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Ysgol gynradd Gatholig cyfrwng Saesneg (250 o ddysgwyr)**

Yn yr ysgol hon, mae canran y dysgwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol wedi codi o 19% i 39% yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ac mae arfer cynhwysol wedi bod yn allweddol o ran galluogi dysgwyr a rhieni/ofalwyr o Wlad Pwyl sydd newydd gyrraedd i gyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.

Yn rhan o ymrwymiad at gynnwys dysgwyr sydd newydd gyrraedd, mae'r ysgol wedi datblygu gweithdrefn derbyn a hyfforddiant sefydlu eglur, sydd wedi ei strwythuro'n dda, ac sy'n cynnwys:

- cyfweliadau â dysgwyr a rhieni/ofalwyr, a gynhelir yn y famiaith pan fo hynny'n bosibl
- system gyfeillio gefnogol
- cyfle i rieni/ofalwyr siarad ag aelodau staff
- arwyddion amlieithog o amgylch yr ysgol i gynorthwyo'r rhai y mae'r Saesneg yn newydd iddyn nhw.

Mae cysylltiadau cartref-cymuned-plwyf cadarn wedi galluogi ethos gwirioneddol gynhwysol. Mae'r ysgol yn annog rhieni/ofalwyr ac aelodau o'r gymuned Bwylaidd yn weithredol i chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol a dysgu'r plant. Cyflawnwyd hyn drwy: ganfod a chyflogi cynorthwywyr dysgu Pwylaidd a Lithuanaidd a goruchwylwyr amser cinio o'r gymuned; cynnig dosbarthiadau llythrennedd i deuluoedd i rieni/ofalwyr sy'n dysgu Saesneg; darparu clwb amser cinio lle dysgir caneuon, dawnsiau a gemau Pwylaidd gan unrhyw ddysgwr sydd â diddordeb; a Grŵp Iaith a Dysgu i Deuluoedd a gynhelir yn rheolaidd.

Mae dathlu amrywiaeth yr ysgol yn amlwg drwyddi draw. Mae dysgwyr a rhieni/ofalwyr yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gwahanol ddigwyddiadau a drefnir gan yr ysgol, gan gynnwys canu carolau Pwylaidd, dawnsio Pwylaidd yn y sioe talent flynyddol a stondin Bwylaidd yn ffeiriau'r ysgol.

Mae cyfathrebu effeithiol wedi bod yn hanfodol o ran datblygu pob agwedd ar yr arfer cynhwysol hwn. Cyfieithir cylchlythyrau'r ysgol i Bwyleg; anogir dysgwyr sydd newydd gyrraedd i ymuno â chlybiau ar ôl ysgol er mwyn gwneud ffrindiau, gwella eu Saesneg, a dod yn aelod gweithredol o'r ysgol; mae rhieni/ofalwyr Pwylaidd wedi derbyn y gwahoddiad i ymuno â'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, ac maen nhw'n teimlo eu bod nhw'n gallu mynd at aelodau'r staff oherwydd amgylchedd croesawgar yr ysgol a'r polisi drws agored. Mae cysylltiadau agos wedi eu sefydlu hefyd â'r ysgol uwchradd leol, gan ddefnyddio arbenigedd cynorthwywyr dysgu yr iaith Bwyleg, er mwyn sicrhau pontio didrafferth i Flwyddyn 7.

# Nodweddion arfer da o ran hybu cydraddoldeb hiliol, ac amrywiaeth ethnig, diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol

Mae hybu delweddau cadarnhaol o'r amrywiaeth o ddiwylliannau a welir yng Nghymru gyfoes yn aml yn cynnwys gweithgareddau megis edrych ar fwyd, dillad, arteffactau a cherddoriaeth. Fodd bynnag, mae agweddau ar y dull hwn wedi'u disgrifio fel rhywbeth symbolaidd, sy'n defnyddio ymagwedd 'ymwelydd' neu '*saris a samosas*' nad yw o anghenraid yn mynd i'r afael â mater sy'n llawer mwy cymhleth a heriol.

Mae Stella Dadzie yn *Toolkit for Tackling Racism in Schools* (Trentham Books Ltd., 2000) yn nodi:

- gallai ymagweddau o'r fath awgrymu mai gwahaniaethau diwylliannol yn hytrach na hiliaeth yw'r 'broblem'
- gallen nhw gymryd yn ganiataol mai'r diwylliant goruchafol yw'r 'arfer', gyda'r disgwyliad y dylai eraill gydymffurfio
- gallen nhw ddarlunio diwylliannau eraill fel rhai egsotig neu ryfedd a gallen nhw atgyfnerthu rhagfarn sydd wedi'i seilio ar stereoteipiau o ddiwylliannau, crefyddau a ffyrdd o fyw eraill
- gallen nhw ddiystyru'r cwestiynau mwyaf cymhleth (er enghraifft, ynglŷn â phŵer economaidd/ideolegol a hierarchaeth gymdeithasol) sy'n allweddol o ran helpu dysgwyr i ddeall hiliaeth a'u galluogi i'w herio
- gallen nhw wneud i'r grŵp mwyafrifol deimlo mai dim ond grwpiau ethnig lleiafrifol sydd â 'diwylliant'.

Yn ystod yr 1980au, barnwyd amlddiwylliant gan addysgwyr gwrth-hiliaeth, a awgrymodd fod peidio â rhoi digon o sylw i natur ormesol ac anghyfiawn gwleidyddiaeth hiliol, ac anwybyddu'r gwahaniaethu hiliol a brofir bob dydd gan filiynau o Brydeinwyr, mewn gwirionedd, yn gyfystyr â'i oddef a'i barhau.

Ystyrir yn gyffredinol erbyn hyn fod y ddwy agwedd hyn ynghlwm wrth ei gilydd. O ganlyniad, mae'r arfer da ar gyfer hybu cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth yn derbyn ac yn rhoi sylw i elfennau allweddol o amlddiwylliant a gwrth-hiliaeth, ac fe'i nodir yn yr enghreifftiau hyn.

- Mae pob aelod o staff yr ysgol yn cymryd rhan mewn hyfforddiant cydraddoldeb hiliol ac yn datblygu polisi a chynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol, a drosglwyddir yn briodol i'r holl ddysgwyr, rhieni/ofalwyr, llywodraethwyr a phobl eraill yn y gymuned. Dylid tynnu sylw at gysylltiadau â pholisi a chynllun gweithredu ADCDF yr ysgol a'i pholisi addysg grefyddol[3].

---

[3] Mae'n ofyniad cyfreithiol i ysgolion a gynhelir yng Nghymru adlewyrchu Cristnogaeth a phrif grefyddau eraill y Deyrnas Unedig yn eu gwersi addysg grefyddol. Golyga hyn fod angen addysg grefyddol aml-ffydd beth bynnag yw'r lleoliad, ond penderfynir ar y dewis o grefyddau yn lleol.

- Rhoddir sylw i gydraddoldeb hiliol ym mhob polisi ysgol perthnasol er mwyn sicrhau hawliau pob dysgwr i driniaeth a chyfle cyfartal. Wrth ystyried ethnigrwydd, iaith, diwylliant a chrefydd, mae'n rhaid i ysgolion rymuso pob dysgwr i gyflawni ei lawn botensial. Mae'n rhaid i athrawon fod yn ymwybodol o beryglon stereoteipio dysgwyr, a allai arwain at ddisgwyliadau amhriodol ac ymddygiad gwahaniaethol, ac a allai hefyd effeithio ar lwyddiant addysgol.

- Mae athrawon, ysgolion ac arferion addysgol yn sensitif i beryglon hiliaeth sefydliadol a all fod ar sawl ffurf, ac a allai hyd yn oed wahaniaethu yn ddiarwybod yn erbyn dysgwyr lleiafrifol. Gall safbwyntiau athrawon eu hunain ddylanwadu ar ba mor ddifrifol maen nhw'n ystyried digwyddiadau megis aflonyddwch hiliol. Mae Adroddiad MacPherson[4] yn pwysleisio pwysigrwydd cychwyn gyda chanfyddiad y dioddefwr neu dystion eraill o ddigwyddiad hiliol, ac ymchwilio iddo'n drylwyr.

- Anogir perthynas dda rhwng pobl o bob cefndir ethnig a gynrychiolir yn y gymuned a thu hwnt, ac ymrymusir pob dysgwr trwy'r cwricwlwm i herio agweddau ac arferion hiliol yn eu profiadau nhw ac yn y gymuned ehangach, trwy ddulliau cyfreithlon a democrataidd. Mewn dadleuon ynglŷn â materion sy'n ymwneud â hiliaeth lle ceir amrywiaeth o esboniadau ac atebion posibl, mae dysgwyr yn gallu gwerthuso ystod o sylwadau yn feirniadol, gan wahaniaethu rhwng dadleuon rhesymol a'r rhai sydd wedi eu seilio ar anoddefgarwch neu ragfarn hiliol.

- Mae pob aelod o staff ysgolion yn dangos sensitifrwydd diwylliannol yn eu rhyngweithio a'u cyfathrebu gyda dysgwyr a theuluoedd. Dylai pob aelod o staff a dysgwyr oleddfu eu hiaith trwy ddefnyddio geiriau megis 'rhai', 'sawl' neu'r 'rhan fwyaf' cyn enwi grŵp diwylliannol neu grefyddol, er enghraifft, 'rhai Hindŵiaid'. Dylai pawb ddeall sut mae gwahanol normau, gwerthoedd a systemau cred diwylliannol yn effeithio ar ffyrdd o fyw, agweddau a dysgu.

- Cyflwynir pob dysgwr i lefel briodol o wybodaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'u diwylliannau eu hunain a rhai pobl eraill yn lleol, ynghyd â'r prif ddiwylliannau a gynrychiolir yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

---

[4] *The Stephen Lawrence Inquiry: Report of an Inquiry* gan Sir William MacPherson o Cluny (TSO, 1999)

- Mae dysgwyr yn dod i werthfawrogi'r ffaith fod diwylliannau yn newid ac nad ydyn nhw'n statig, a'u bod nhw'n ymadweithio ac yn dylanwadu ar ei gilydd. Nid yw unigolion yn cael eu stereoteipio na'u labelu, ac mae dysgwyr yn deall y caiff pobl ddewis gwahanol ffurfiau ar hunaniaeth a diwylliant i fynegi eu hunain yn unigol, ac fel aelodau o gymunedau gwahanol a chyfansawdd.
- Mae cyfleoedd i fynegi hunaniaeth ddiwylliannol yn cyfoethogi ysgolion/cymunedau, a rhoddir mwy o barch pan ystyrir bod amrywiaeth dysgwyr yn adnodd gwerthfawr.
- Ystyrir barn pob dysgwr wrth ddatblygu'r cwricwlwm. Gall dysgwyr helpu'n weithredol i lunio'r cwricwlwm, a gwaith dysgu ac addysgu, drwy eu cyngor ysgol neu fentrau megis teithiau cerdded dysgu. Yn ogystal, gellir casglu barn dysgwyr drwy ymarferion ymgynghori. Mae'r athrawon yn ystyried cefndiroedd a phrofiadau dysgwyr, ac yn cysylltu gweithgareddau â'r dysgwyr a'u teuluoedd yn hytrach na cheisio 'ffitio' dysgwyr i'r cwricwlwm sydd eisoes yn bodoli. Trwy wneud hyn, nid yw dysgwyr o gefndiroedd gwahanol, a grwpiau lleiafrifol yn enwedig, dan anfantais. Mae'r pecynnau cymorth *Gwrando ar ddysgwyr* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) ar gael ar-lein. Gellir defnyddio'r deunyddiau sydd yn y pecynnau cymorth hyn i gael barn dysgwyr am y cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn eu hysgol.
- Datblygir gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â digwyddiadau hiliol a'u monitro, ar gyfer recriwtio, ac er mwyn gallu monitro cyrhaeddiad yn ôl ethnigrwydd ym mholisi'r ysgol. Efallai bydd ysgolion yn annog dysgwyr i ymgysylltu â'u cyngor ysgol, eu fforwm ieuenctid lleol neu Y Ddraig Ffynci (Y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru) i godi materion amrywiaeth ar lefel ysgol, lleol neu genedlaethol.

Ceir gwybodaeth bellach am addysgeg ddiwylliannol ymatebol, ac ystyriaethau diwylliannol sy'n dylanwadu ar y ffordd mae dysgwyr yn dysgu, yn www.ibe.unesco.org/en/inclusive-education/tools, yn ogystal ag yn y llyfrynnau *Change Teaching Practices: using curriculum differentiation to respond to students' diversity* (UNESCO, 2004), ac *Addressing diversity in schools: Culturally responsive pedagogy* (National Center for Culturally Responsive Education Systems, USA, 2006).

## ASTUDIAETH ACHOS

**'Ynysoedd Dychymyg' yn ysgolion cynradd de Cymru**

Mae 'Ynysoedd Dychymyg' yn brosiect cyffrous lle gofynnir i ddysgwyr sefydlu diwylliant dychmygol yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu i ddatblygu eu creadigrwydd ac yn hybu gwell dealltwriaeth o ddiwylliannau a chymdeithasau eraill sy'n bodoli mewn gwirionedd – er enghraifft, trwy arwain at astudiaeth o ddau leoliad cyferbyniol ar wahanol lefelau o ran datblygiad economaidd y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Cyflwynir y plant i ynys ddychmygol, a allai cael ei lunio gan yr athro/athrawes neu'r dysgwyr. Mae'r ynys yn cynnwys gwahanol fathau o gymunedau, a phob un ohonyn nhw â'i nodweddion ei hun, megis hinsawdd, tirwedd, ac ati. Mewn grwpiau, mae'r dysgwyr yn creu diwylliant eu pentref neu eu dinas penodol nhw. Gall hyn gynnwys amrywiaeth o weithgareddau, gyda'r dysgwyr yn defnyddio'r syniad o briodweddau allweddol i bennu nodweddion naturiol a dynol – er enghraifft, adeiladau, iaith, motiffau, cerddoriaeth, chwedlau, bwyd, gwyliau, dawns, gwaith, math o lywodraeth, ffasiwn, ac ati. Gellid datblygu cwestiynau fel fframwaith ar gyfer ymchwilio i leoliadau eraill.

Gall y prosiect fod o unrhyw hyd, a gellir ei addasu i weddu i'r dosbarth neu'r ysgol. Mewn un ysgol, cynlluniwyd prosiect pythefnos ar gyfer dau ddosbarth Blwyddyn 5. Mewn un dosbarth, dyluniwyd yr ynys gan yr athro ac yn y dosbarth arall, gwaith y dysgwyr ydoedd. Cynhyrchodd y ddau ddosbarth amrywiaeth o waith rhagorol, gan gwmpasu pob maes o'r cwricwlwm, ac roedd y prosiect yn llwyddiant aruthrol. Manteisiwyd ar gyfleoedd i herio delweddau ystrydebol a symboleiddiaeth. Yn y dyfodol, bydd yn elfen barhaol o weithgareddau tymor y gwanwyn Blwyddyn 5.

(Daeth y syniad ar gyfer y gwaith hwn o *Creativity and Culture – Art Projects for Primary Schools* gan Nigel Meager (National Society for Education in Art and Design, 2006).)

## Sut mae ysgolion yn datblygu cwricwlwm ar gyfer hybu cydraddoldeb hiliol, ac amrywiaeth ethnig, diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol, ac yn cynnwys pob dysgwr?

Y man cychwyn ar gyfer cynllunio cwricwlwm ymgysylltiol yw profiadau dysgwyr eu hunain. Mae datblygu hunaniaeth bersonol yn cyd-fynd â'r angen dynol sylfaenol i fod yn perthyn ac i uniaethu, yn gyntaf â'r teulu agos ac yna â grwpiau ehangach megis grwpiau ysgol, y gymuned a grwpiau ethnig, diwylliannol, ieithyddol ac ati. Efallai bydd dysgwyr yn 'perthyn' i sawl grwp gwahanol, sy'n newid dros amser.

Mae'r cwricwlwm, yr adnoddau a'r 'hinsawdd ddysgu' i gyd yn chwarae rhan hanfodol mewn helpu dysgwyr i deimlo eu bod nhw'n cael eu cynnwys a'u derbyn yn yr ysgol – i deimlo eu bod nhw'n perthyn. Mae dysgwyr o bob rhan o'r gymuned angen gweld eu hethnigrwydd, eu diwylliant, eu crefydd, eu hanes, eu profiadau, eu rhywioldeb a'u hieithoedd yn cael eu hadlewyrchu'n gadarnhaol a'u trysori yn y cwricwlwm. Bydd addysgu a dysgu da yn hybu gwerthoedd cyffredin ac yn sicrhau'r lefel uchaf posibl o gyflawniad ar gyfer pob dysgwr, gan ei helpu i adnabod nodweddion sy'n debyg yn hytrach na gwahaniaethau rhwng cefndiroedd ethnig, diwylliannol, crefyddol a chymdeithasol-economaidd. Bydd cyfleoedd i drafod materion sy'n ymwneud â hunaniaeth yn cael eu cynnwys ar draws y cwricwlwm.

Ymchwiliodd Scourfield (2007)[5] i sut roedd plant deng mlwydd oed mewn chwech ysgol gynradd ledled Cymru yn siarad am Gymru a gwledydd eraill. Canfu fod y rhan fwyaf ohonyn nhw yn cysylltu bod yn Gymro â'r iaith Gymraeg mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n awgrymu ei bod yn bwysig hybu'r syniad fod llawer o ffyrdd o fod yn Gymro, nid yn unig i'r lleiafrifoedd ethnig gweladwy, ond hefyd i'r plant uniaith Saesneg a'r rhai sydd wedi mewnfudo o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt. Mae'n awgrymu y byddai ymagwedd fwy dynamig yn dwyn hynodrwydd a chynwysoldeb ynghyd, ac yn annog dysgwyr i ddatblygu eu gweledigaeth greadigol eu hunain o Gymru a'r hyn mae'n ei olygu i fod yn ddinasyddion Cymru.

### ASTUDIAETH ACHOS

**Uned Iaith Gymraeg, Gogledd Cymru**

Yn yr Uned Iaith Gymraeg, fel mewn llawer o leoliadau cyfrwng Cymraeg, mae dysgwyr o ystod ehangach o wledydd a diwylliannau, yn ogystal ag o'r Deyrnas Unedig, yn dysgu nid yn unig yr iaith Gymraeg ond hefyd agweddau ar ddiwylliant Cymru a fydd o gymorth i gynyddu eu hymdeimlad o fod yn perthyn a'u hymgysylltiad â'r ysgol a'r gymuned leol. Rheolir y dysgu hwn yn sensitif o fewn ethos sy'n parchu amrywiaeth o ran iaith, diwylliant a chred, ac sy'n trysori cefndir a hunaniaeth pob dysgwr. Os yw dysgwyr yn gallu mynegi eu hunaniaeth eu hunain, bydd ganddyn nhw well sail ar gyfer uniaethu â phobl eraill a'u parchu, a chyfrannu at Gymru gyfoes.

[5] *Who do we think we are?* gan Jonathan Scourfield (Sefydliad Materion Cymreig, 2007)

Dylai'r cwricwlwm nid yn unig gefnogi dealltwriaeth dysgwyr o gydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth, ond dylai hefyd eu helpu i gyfranogi yn ein cymdeithas ddemocrataidd. Gallai cyfleoedd allweddol gynnwys:

- archwilio arwyddocâd, gwerth ac effaith amrywiaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, ac edrych ar sut ffurfiwyd gwahanol ddiwylliannau
- archwilio sut gallai diwylliannau lleiafrifol a mwyafrifol effeithio ar ei gilydd
- datblygu dealltwriaeth gywir a pharch tuag at wahanol grwpiau ethnig, diwylliannol a chrefyddol yng Nghymru, Ewrop a'r byd
- datblygu dealltwriaeth o'r berthynas sy'n bodoli rhwng gwahanol bobloedd, lleoedd, economïau ac amgylcheddau yn y gymuned fyd-eang, gan ystyried gwerthoedd, agweddau a safbwyntiau a rennir
- datblygu dealltwriaeth o ganlyniadau gwahaniaethu
- datblygu sgiliau ar gyfer herio pob ffurf ar wahaniaethu
- dangos bod llwyddiannau dynol yn gyffredin i bawb
- archwilio swyddogaeth technoleg o ran rhannu syniadau a gwybodaeth, gan alluogi pobl i weithio gyda'i gilydd mewn ffyrdd newydd a chreadigol.

Dylai'r cwricwlwm hefyd:

- ddarparu cyfle cyfartal ar gyfer pob dysgwr, a dileu rhwystrau i fynediad at ddysgu a chymryd rhan ynddo
- cynnwys dysgwyr, a'u helpu i ryngweithio gyda phobl o wahanol gefndiroedd a datblygu perthynas gadarnhaol
- datblygu ymwybyddiaeth o hawliau dynol, a sgiliau cyfranogi a gweithredu cyfrifol – er enghraifft, cynnwys dysgwyr (trwy gyngor yr ysgol) wrth ddiffinio hiliaeth a nodi gweithredoedd i'w atal.

Mae sawl ysgol yn defnyddio'r cwricwlwm yn llwyddiannus i ddatblygu cydlyniad cymunedol, er enghraifft, trwy ddarparu'r canlynol.

- Gwersi ar draws y cwricwlwm sy'n hybu gwerthoedd cyffredin ac sy'n helpu i herio rhagfarn a stereoteipio – er enghraifft, mae'r fframwaith ABCh yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr drafod materion sy'n ymwneud â hunaniaeth ac amrywiaeth, a'r hyn mae'n ei olygu i gyd-fyw yng Nghymru. Mae'r thema ADCDF o fewn ABCh yn atgyfnerthu hyn ymhellach ac yn cefnogi datblygiad gwerthoedd, agweddau a sgiliau ar gyfer bywyd yn yr unfed ganrif ar hugain.

- Gweithgareddau sydd wedi eu seilio ar y cwricwlwm lle cyfoethogir dealltwriaeth dysgwyr o gymuned ac amrywiaeth trwy waith maes, ymweliadau a chyfarfodydd gydag aelodau o wahanol gymunedau.
- Cymorth i ddysgwyr mae Cymraeg/Saesneg yn iaith ychwanegol iddyn nhw er mwyn eu galluogi i gyflawni ar y lefel uchaf bosibl. Mae'r Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru Gyfan yn argymell y dylai datblygiad sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg a/neu Saesneg fod yn flaenoriaeth.
- Cyfleoedd i siaradwyr ieithoedd eraill ddysgu a chadw eu mamiaith, a chyflwyno gwersi iaith blasu ar gyfer dysgwyr eraill. Dylai hyn gynnwys cyflawni achrediadau priodol, pan fo hynny'n bosibl.
- Ffyrdd o gynnwys dysgwyr yn nhrefn lywodraethu a threfniadaeth yr ysgol mewn modd sy'n eu dysgu i gymryd rhan a gwneud gwahaniaeth yn yr ysgol, yn eu cymuned leol a thu hwnt.

Mae canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru *Symud Ymlaen – Addysg i Sipsiwn-Teithwyr* (003/2008) yn pwysleisio pwysigrwydd cydraddoldeb hiliol ym mhob lleoliad/ysgol, ac ym mhennod pump mae'n cynnwys gwybodaeth bellach am faterion cwricwlaidd gyda rhai astudiaethau achos.

Bydd cwricwlwm sy'n cynnwys materion amlddiwylliannol a gwrth-hiliol yn effeithiol yn:

- adlewyrchu realaeth ein cymdeithas amlddiwylliannol. Ni fydd addysgu pwnc yn gosod safbwynt unigol o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn Gymro, yn Sais, yn Brydeiniwr, ac ati. Cydnabyddir yn briodol fod safbwyntiau cenedlaethol, ethnig neu grefyddol eraill yn berthnasol ac yn ddilys – er enghraifft, mae'r rhaglen astudio ar gyfer hanes yn darparu cyfleoedd ar gyfer deall sut ffurfiwyd y gymdeithas gyfoes, ond hefyd i astudio anoddefgarwch ac erledigaeth yn y gorffennol, ac i ymchwilio i sut datblygir gwahanol ddehongliadau o hanes, gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael, a'i harchwilio o ran dibynadwyedd a rhagfarn
- chwilio am gyfleoedd ar draws pynciau ar gyfer gwerthfawrogi dwyieithrwydd/amlieithrwydd
- addysgu addysg grefyddol mewn ffordd sy'n datblygu dealltwriaeth gywir dysgwyr o ystod o grefyddau ac archwilio'r dylanwad a gaiff y crefyddau hyn ar fywydau credinwyr ar draws Cymru ac ar gymdeithas
- symud y tu hwnt i ganolbwyntio ar ddyddiau gŵyl a mannau addoli at ddealltwriaeth fwy cyfannol o grefyddau a diwylliannau

- nodi'r gwahaniaeth rhwng ffordd o fyw diwylliannol ac arddel arferion crefyddol, a deall pa mor bwysig yw hi i gredinwyr crefyddol lynu at awdurdod crefyddol
- archwilio amrywiaeth trwy ystyried bod tebygrwydd a gwahaniaethau yn bodoli o fewn crefyddau yn ogystal â rhwng gwahanol grefyddau
- addysgu addysg grefyddol mewn ffordd sy'n codi materion moesol a chrefyddol heriol yn sensitif – er enghraifft, cwestiynau ynglŷn â chamfanteisio a chyfiawnder, rhyddid a chyfrifoldeb cymdeithasol, anghydraddoldeb a hawliau dynol, ac ati
- cynnwys astudiaeth o bobl a lleoedd o safbwyntiau amrywiol mewn ffyrdd sy'n herio rhagdybiaethau a stereoteipiau
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr archwilio effaith ac achosion erledigaeth grefyddol a diwylliannol
- sicrhau bod pob arddangosfa ac adnodd yn darlunio delweddau anystrydebol o'r Gymru amlddiwylliannol gyfoes, a sicrhau bod adnoddau newydd yn adlewyrchu undod ac amrywiaeth
- astudio cysyniadau mathemategol a gwyddonol sy'n adlewyrchu traddodiadau diwylliannol amrywiol
- archwilio celf, llenyddiaeth a cherddoriaeth o wahanol darddiad diwylliannol
- astudio llwyddiannau pobl o wahanol gefndiroedd ethnig a diwylliannol ym mhob maes
- archwilio sut portreadir gwahanol grwpiau mewn llenyddiaeth ac yn y cyfryngau
- archwilio gwahanol ieithoedd, ac ystyried y cyffelybiaethau a'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng y rhain a'r Gymraeg a'r Saesneg.

Nodir y cyfleoedd sydd ar gael i gynnwys yr hyn sy'n berthnasol yn y cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr yn Atodiadau 2 a 3.

## Dechrau'n gynnar

Yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tri i saith mlwydd oed, mae'r Maes Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn rhoi pwyslais ar godi ymwybyddiaeth o amrywiaeth ddiwylliannol, ynghyd â deall bod teuluoedd a'r swyddogaethau mae pobl yn eu cyflawni yn gallu amrywio. Mae hyn yn darparu sail gadarn ar gyfer datblygu'r ddealltwriaeth fod pobl yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd sydd â gwahanol anghenion, barn a chredoau, gydag ymwybyddiaeth gynyddol nad oes yr un diwylliant, iaith na chrefydd yn well na rhai eraill. Ceir digon o gyfle i hybu dealltwriaeth o gydraddoldeb hiliol a pharch at amrywiaeth. Mae'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* yn cynnwys adran 'Addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen – Pobl, Credoau a Chwestiynau' gellir ei defnyddio i godi ymwybyddiaeth o amrywiaeth grefyddol a diwylliannol.

## ASTUDIAETH ACHOS

### Gwerthfawrogi amrywiaeth mewn lleoliadau/ysgolion y Cyfnod Sylfaen

Wrth ddarparu hyfforddiant ar werthfawrogi amrywiaeth mewn lleoliadau/ysgolion y Cyfnod Sylfaen, mae'r Gwasanaeth Ieithoedd Lleiafrifol Ethnig a Chyrhaeddiad (EMLAS) mewn awdurdod lleol yn Ne Cymru yn bwriadu codi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o ieithoedd, diwylliannau, crefyddau ac ethnigrwydd a gynrychiolir yn lleol ac yn genedlaethol yng Nghymru. Cyflwynir aelodau staff yr ysgol i strategaethau ac adnoddau addysgu priodol, ac fe'u hanogir i gynnal archwiliad o ddeunyddiau addysgu, y llyfrgell a llyfrau darllen er mwyn nodi unrhyw ragfarn neu stereoteipio negyddol. Darperir rhestr wirio i'w helpu i ddewis llyfrau storïau priodol. Ar ddiwedd y sesiynau, rhoddir pecyn cymorth 'Amrywiaeth – pecyn hunanwerthuso' i'r staff i'w helpu i feddwl am faint mae amrywiaeth ethnig, crefyddol ac ieithyddol yn cael eu gwerthfawrogi yn eu lleoliad/ysgol penodol, ac i nodi'r meysydd lle mae angen iddyn nhw ddatblygu ymhellach. (Gellir dod o hyd i'r deunyddiau hyn yn Atodiad 4.)

# Beth sydd angen i athrawon ei wybod am addysgu iaith a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm?

Er mwyn sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad pob dysgwr, bydd angen i athrawon addysgu iaith a chyfathrebu yn weithredol ym mhob pwnc. Awgrymir y strategaethau canlynol i gynorthwyo athrawon i ddatblygu'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm a dathlu'r amrywiaeth ieithyddol a welir mewn ysgolion a chymunedau. Ni ddylai'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer dysgwyr nad yw Cymraeg/Saesneg yn famiaith iddyn nhw fod yr un ag ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol ychwanegol. Mae dwyieithrwydd yn rhan naturiol o fywyd, yn enwedig yng Nghymru – neu fe ddylai fod:

> . . . mae tystiolaeth yn awgrymu bod dwyieithrwydd yn hybu parch at amrywiaeth a gallu i ymgyfarwyddo â gwahanol wirioneddau diwylliannol[6].

Dylid gwerthfawrogi, cynnwys a herio'n briodol y dysgwyr hynny sy'n dysgu Cymraeg/Saesneg yn ogystal â mamiaith wahanol, a hefyd dylid rhoi cyfleoedd iddyn nhw gynnal a chyflawni achrediadau yn eu mamiaith, pan fo hynny'n bosibl. Bydd creu amgylchedd 'diogel' lle mae dysgwyr yn teimlo eu bod nhw'n gallu ymarfer eu sgiliau datblygu iaith heb deimlo ofn na gwawd, yn datblygu hyder a mwy o gymhelliad. Mae ysgolion cynradd yn cyflwyno mwy o ieithoedd (yn ogystal â Chymraeg/Saesneg) ac yn amlygu buddion amlieithrwydd.

Mae Atodiad 7 yn darparu fframwaith a allai gynorthwyo athrawon i gynllunio gwersi i gefnogi datblygiad iaith pob dysgwr yn eu dosbarthiadau.

[6] Dyfynnwyd o Dr Jim Anderson, Coleg Goldsmiths, Llundain, yn *Positively Plurilingual* (CILT).

# Beth yw'r cyfleoedd allweddol i hybu cydraddoldeb hiliol, ac amrywiaeth ethnig, diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol yn y cwricwlwm ysgol?

Er mwyn hybu cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth, mae angen i aelodau staff a dysgwyr fanteisio ar bob cyfle i adlewyrchu ystod y diwylliannau a'r traddodiadau a gynrychiolir yn y gymuned leol a byd-eang.

Fel man cychwyn i athrawon sy'n ystyried y ffordd orau o ddatblygu dealltwriaeth o gydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth trwy'r cwricwlwm ysgol a'r fframweithiau, awgrymir rhai syniadau yn Atodiadau 2 a 3.

Nid yw'r rhain yn gynhwysfawr, ac fe'u bwriedir yn unig ar gyfer ysgogi ystyriaeth barhaus o sut gellir cynnwys amrywiaeth yn y cwricwlwm. Fe allai'r mapiau meddwl fod yn ddefnyddiol i athrawon er mwyn ystyried cyfleoedd i'w cynnwys yn y cynlluniau pwnc tymor hir/canolig neu mewn themâu sy'n cwmpasu nifer o bynciau. Mae cyfleoedd o'r fath hefyd yn debygol o gysylltu â gwaith ABCh, a themâu trawsbynciol ADCDF a chyfle cyfartal. Wrth symud i drefnu'r cwricwlwm mewn ffyrdd mwy arloesol, bydd ysgolion yn gallu defnyddio'r syniadau hyn fel cyd-destunau diddorol ar gyfer datblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif eu dysgwyr.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yng Ngogledd Cymru**

Yn y cwricwlwm ar gyfer Blwyddyn 7, mae wyth thema yn darparu'r cyd-destun ar gyfer gwaith trawsgwricwlaidd sy'n seiliedig ar sgiliau. Un o'r themâu yw 'Gwrthdaro mewn Celf' sy'n archwilio themâu gorthrwm, gwrthdaro ac erledigaeth lleiafrifoedd trwy hanes, Saesneg, celf, tecstiliau a mathemateg. Fel rhan o'r prosiect wyth wythnos hwn, mae athro o'r tîm Saesneg fel iaith ychwanegol lleol yn darparu dwy wers o'r enw 'Troi Gynnau'n Gelfyddyd'. Trafodir plant sy'n filwyr, gan ddefnyddio deunyddiau am gyn filwyr sy'n blant ac sydd wedi cael hyd i ffyrdd eraill o ddefnyddio eu harfau, megis gwneud dodrefn ac offerynnau cerdd. Mae'r testun hwn yn annog y dysgwyr i feddwl am wahanol rolau a phrofiadau pobl ifanc mewn gwledydd/diwylliannau eraill.



Gan ddefnyddio 'Guernica' gan Picasso fel man cychwyn, mae'r dysgwyr yn myfyrio ar symbolaeth fel iaith fyd-eang ac yn cynllunio symbolau heddychlon. Maen nhw'n cydweithio i wneud 'baner heddwch' gan ddefnyddio inc ar ffabrig ac amrywiaeth o decstiliau, sy'n cynnwys geiriau a symbolau allweddol. Mae'r faner yn darparu cefnlen ar gyfer perfformio eu hymatebion ysgrifenedig ar thema gwrthdaro, sy'n cynnwys chwarae rôl, barddoniaeth a dyddiadur rhyfel.

Mae'n bwysig bod athrawon yn ystyried gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol dysgwyr wrth gynllunio gweithgareddau – er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael mewn unrhyw grŵp ac i sicrhau y gellir mynd i'r afael mewn modd sensitif ag unrhyw gamsyniadau a rhagfarnau sydd eisoes yn bodoli. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i athrawon gynnwys dilyniant a monitro/asesu sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau'r dysgwyr, sydd yn datblygu yn y meysydd cymhleth hyn.

Mae'r tablau yn Atodiad 3 ar gyfer Llwybrau Dysgu 14–19; y Cwricwlwm Cymreig; Cymru, Ewrop a'r Byd; gyrfaoedd a'r byd gwaith; ac ADCDF yn casglu peth gwybodaeth a datganiadau o'r dogfennau cwricwlwm ar wahân er mwyn cynorthwyo athrawon i ystyried dimensiynau ar draws y cwricwlwm.

Er mwyn ysgogi dadl a chychwyn trafodaeth ar faterion penodol, gellir defnyddio testunau priodol fel sail ar gyfer ymchwiliad athronyddol, lle anogir dysgwyr i feddwl am gwestiynau mawr. Yn dilyn meddwl a thrafod, mae'r dysgwyr yn llunio rhestr o gwestiynau ac yna yn pleidleisio i benderfynu pa un bydden nhw'n dymuno ei drafod. Mae'r gweithgaredd hwn yn caniatáu iddyn nhw wynebu teimladau negyddol am wahaniaethau, a datblygu sgiliau ar gyfer ymdrin â theimladau a'u trawsnewid mewn ffordd anfygythiol. Mae angen hwyluso gweithgareddau o'r fath mewn ffordd sensitif er mwyn gofalu na chaiff safbwyntiau hiliol, rhagfarnllyd ac anghywir nac iaith amhriodol eu mynegi.

Gall gwaith grŵp cydweithredol gefnogi datblygiad iaith dysgwyr ymhellach a chaniatáu iddyn nhw weithio gyda chyfoedion yn cyflawni gorchwylion sy'n wybyddol anos. Gellir defnyddio'r adran 'Datblygu meddwl' yn y fframwaith sgiliau i gynllunio amrywiaeth o gyfleoedd sy'n ymwneud â:

- gofyn cwestiynau a chywain gwybodaeth – cymharu a chyferbynnu, categoreiddio a dosbarthu, gosod pethau mewn trefn, ac ati
- chwilio am batrymau, a meddwl am achos ac effaith
- pwyso a mesur syniadau, a gwneud penderfyniadau
- adolygu, gwerthuso, egluro a chyfiawnhau, gan wneud cysylltiadau â meysydd dysgu eraill.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg (dros 1,200 o ddysgwyr)**

Bu pennaeth hanes a phennaeth Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL) yr ysgol yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i ailysgrifennu cynllun gwaith Cyfnod Allweddol 3. Mae dros 25 y cant o'r dysgwyr yn yr ysgol yn hannu o darddiad ethnig lleiafrifol (mae rhai ohonyn nhw yn cynrychioli trydedd neu bedwaredd genhedlaeth o'u teulu yn yr ardal), ac mae'r cynllun gwaith newydd yn ceisio cydnabod hyn. Fel rhan o'u hymchwiliad i newidiadau allweddol rhwng 1760 a 1914, mae dysgwyr Blwyddyn 9 yn cynnal astudiaeth fanwl o ddatblygiad Ymerodraeth Prydain a'i llwybrau masnach i India. Roedd y llwybrau hyn yn bwysig iawn o ran datblygiad Casnewydd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, ac mae'r ymchwiliad yn caniatáu i fyfyrwyr ddarganfod pam y ceir cymunedau mawr Somali a Yemeni lleol, a sefydlwyd gan forwyr o Aden a Horn Affrica, yn ogystal â chymunedau o isgyfandir India.

Mae'r uned waith hon yn galluogi pob dysgwr i ddarganfod mwy am eu treftadaeth gyffredin.

Bydd priodoldeb y testunau a ddefnyddir mewn gwersi pwnc yn bwysig ar gyfer pob pwnc. Mae'r rhestr wirio gyffredinol a ddarperir yn Atodiad 6 yn awgrymu sut gellir asesu deunyddiau o ran eu priodoldeb, a gallai helpu ysgolion i werthuso eu hadnoddau presennol a nodi adnoddau newydd priodol.

# Sut mae ysgolion yn gwybod eu bod yn llwyddo i hybu cydraddoldeb hiliol, ac amrywiaeth ethnig, diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol?

Mae'r canllawiau hyn eisoes wedi cyfeirio at bwysigrwydd monitro data cyrhaeddiad dysgwr a defnydd yr ysgol o waharddiadau ar gyfer gwahanol grwpiau dysgu fel modd o hunanwerthuso parhaus. Dylai gwaith ar gynlluniau datblygu ysgol gynnwys trefniadau ar gyfer rhoi sylw i unrhyw faterion polisi/arfer sy'n codi o fonitro mewnol o'r fath.

Pan fydd ysgolion wedi cynnal archwiliad cychwynnol o'u perfformiad o ran hybu cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth, naill ai trwy ddefnyddio pecyn cymorth neu eu dull asesu eu hunain, bydd hyn yn darparu sail ar gyfer gwerthuso cynnydd yn barhaus.

Wrth ystyried priodoldeb gorchwylion ar gyfer dysgwyr unigol, mae Hart[7] yn awgrymu efallai byddai ysgolion yn dymuno meddwl am:

- y galw cysyniadol, gwybodaeth/profiad tybiedig
- oedran ac aeddfedrwydd y dysgwr
- y galw am iaith a'r dull cyflwyno
- hyblygrwydd i ddysgwr ddehongli ystyr yn ei ffordd ddewisedig ei hun
- hunaniaeth, cefndir diwylliannol
- perthnasedd i fywyd beunyddiol y dysgwyr
- cydlynu a chydweddu â gorchwylion eraill
- ymdeimlad o lwyddiant wedi'i gyflawni.

Gellir defnyddio'r cwestiynau canlynol, a addaswyd o *Another Spanner in the Works: Challenging Prejudice and Racism in Mainly White Schools* gan Eleanor Knowles a Wendy Ridley (Trentham Books Ltd., 2006) er mwyn meddwl am weithgareddau sy'n hybu cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth.

- Sut gallwn ni ddatblygu gweithgareddau sy'n cefnogi dealltwriaeth o amrywiaeth ieithyddol, grefyddol, ethnig a diwylliannol er mwyn sicrhau nad symbolaidd yn unig ydyn nhw?
- Sut gallwn ni sicrhau bod agwedd aelodau staff yn cefnogi dealltwriaeth a phrofiad dysgwyr?
- Sut gallai gweithgareddau godi materion cydraddoldeb ac amrywiaeth gartref yn ogystal ag yn yr ysgol?
- Sut ydyn ni'n cadarnhau bod pob gweithgaredd/adnodd yn cyflwyno safbwynt gytbwys, gydag enghreifftiau cadarnhaol o ystod o grwpiau ethnig? (Gweler Atodiad 6.)
- Pa gyfleoedd sydd i ddysgwyr ganfod rhagfarn a herio stereoteipiau? Sut gall ddysgwyr herio barn ac wynebu agweddau negyddol mewn modd sensitif?

---

[7] *Thinking through Teaching: A framework for enhancing participation and learning* gan Susan Hart (David Fulton Publishers, 2006)

- A yw dysgwyr yn teimlo’n hyderus ynglŷn â chodi cwestiynau anodd neu sensitif? A ydyn nhw’n derbyn ateb llawn bob amser ac yn cael cymorth ychwanegol pan fo angen?
- Sut mae gweithgareddau yn helpu dysgwyr i ddeall bod mwy o gyffelybiaethau na gwahaniaethau mewn pobl, ond bod gwahaniaethau yn digwydd o fewn gwahanol grwpiau ethnig/diwylliannol/crefyddol yn ogystal â rhyngddyn nhw?
- Sut ydyn ni’n sicrhau bod cynlluniau pwnc yn cynnwys enghreifftiau o gyfraniadau o amrywiaeth o grwpiau ethnig/diwylliannol?
- Pa gyfraniad mae gweithgareddau yn ei wneud at faterion byd-eang a chyd-ddibyniaeth?
- Sut mae gweithgareddau yn helpu dysgwyr i weld eu bod nhw’n gallu gwneud gwahaniaeth?

# Atodiad 1

## Rhestr termau

Dros y blynyddoedd, bu sawl diffiniad o 'hil', 'ethnigrwydd' a 'hunaniaeth', a dryswch hefyd rhwng y termau hyn a rhai eraill, megis 'diwylliant', 'crefydd', 'ffydd' a 'chred'. Mae'r rhestr termau hon yn ceisio darparu diffiniadau a disgrifiadau cyfoes i gynorthwyo ysgolion i gyflwyno geirfa briodol a chyson pan fyddan nhw'n gweithio gyda dysgwyr.

**Amlddiwylliant**
Fel ideoleg, mae amlddiwylliant yn mynnu bod gan unigolion a grwpiau o bobl sydd ag amrywiol etifeddiaeth diwylliannol hawl i fyw eu bywyd mewn ffyrdd sy'n amrywiol yn ddiwylliannol a mwynhau mynediad llawn i'r cyfleoedd sydd ar gael mewn cymdeithas. Mae amlddiwylliant mewn polisi cyhoeddus yn cefnogi'n weithredol amrywiaeth ddiwylliannol, ac yn cefnogi hawliau unigolion a grwpiau i gynnal eu hunaniaeth arbennig gan lynu ar yr un pryd wrth yr egwyddorion cyfansoddiadol a'r gwerthoedd cyffredin a rennir mewn cymdeithas (Inglis, 1995)[8]. Mae cefnogwyr amlddiwylliant yn dadlau ei fod yn cyfoethogi cymdeithas gyfan.

Mae addysg amlddiwylliant draddodiadol yn pwysleisio:

- addysgu am ddiwylliannau a hanes, gan ddefnyddio enghreifftiau o amrywiaeth o ddiwylliannau a grwpiau lleiafrifol
- defnyddio amrywiaeth o arddulliau addysgu i ddarparu ar gyfer dysgwyr o grwpiau amrywiol
- meithrin diwylliant grymusol o fewn yr ysgol.

Mae beirniaid yn dweud bod yr ymagwedd hon yn anwybyddu'r strwythurau cymdeithasol ac economaidd sy'n sail i hiliaeth a rhagfarn. Mae modelau diweddarach o addysg amlddiwylliant (Kincheloe a Steinberg, 1997)[9] yn cynnwys elfennau o addysg amlddiwylliannol a gwrth-hiliol, gan annog plant a phobl ifanc i archwilio a thrafod gwahaniaethau diwylliannol yng nghyd-destun cydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a hawliau dynol. Defnyddir y term 'rhyngddiwylliant' weithiau i bwysleisio pwysigrwydd ymwneud rhwng pobl o wahanol gefndir diwylliannol fel pobl gydradd mewn prosesau parhaus o ddysgu a datblygu diwylliannol (National Council for Curriculum and Assessment, 2005)[10].

---

8 *Management of Social Transformations (MOST)* – UNESCO Policy Paper – No. 4, 'Multiculturalism and the Need for New Policy Responses to Ethnic Diversity' gan Christine Inglis (UNESCO, 1995) (www.unesco.org/most/pp4.htm#need)

9 *Changing Multiculturalism: New Times, New Curriculum ('Changing Education)*, gan Joe Kincheloe a Shirley R Steinberg (Open University Press, 1997)

10 *Intercultural education in the primary school* (National Council for Curriculum and Assessment, 2005)

**Amlieithog *(Multilingual)***
Presenoldeb dwy neu fwy o ieithoedd mewn cymdeithas neu gymuned yw amlieithog. Dywed Cyngor Ewrop nad yw presenoldeb dwy neu fwy o ieithoedd mewn cymdeithas yn golygu o anghenraid y bydd ynddi unigolion amlieithog *(plurilingual)*. (Gweler isod).

**Amlieithog *(Plurilingual)***
Gallu unigolyn i gyfathrebu ar ba lefel bynnag mewn dwy neu fwy o ieithoedd yw amlieithog hefyd. Mae Cyngor Ewrop yn defnyddio *'plurilingualism'* i gyfeirio at yr unigolyn a *'multilingualism'* i gyfeirio at y gymdeithas, fel yn y diffiniad uchod. Bydd unigolion *'plurilingual'* yn perthyn i gymdeithasoedd *'multilingual'*.

**Ceisydd lloches**
Ceisydd lloches yw unigolyn sy'n ffoi rhag erledigaeth yn ei famwlad, sydd wedi cyrraedd gwlad arall, sydd wedi ei gyflwyno ei hun i'r awdurdodau, ac sydd wedi arfer ei hawl gyfreithiol i wneud cais am loches.

Dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig 1951 sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid, ffoadur yw unigolyn 'sydd y tu allan i wlad ei genedl oherwydd ofn dilys y gallai gael ei erlid am resymau'n ymwneud â hil, crefydd, cenedligrwydd, aelodaeth o grŵp cymdeithasol penodol neu farn wleidyddol, ac sy'n methu â manteisio ar drefniadau amddiffyn y wlad honno, neu sy'n amharod i wneud hynny, oherwydd ofn o'r fath . . . ' *[Cyfieithiad]* (Uchel-gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid, 1951).

Mae llywodraeth y DU yn cydnabod bod ceisydd lloches yn ffoadur pan fydd yn bodloni'r diffiniad uchod.

Mae plant sy'n ceisio lloches yng Nghymru yn arbennig o agored i niwed, ar ôl cael profiad o drawma, gorfod ffoi a chael eu dadleoli.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.welshrefugeecouncil.org/cymraeg

**Cred**
Cred grefyddol yw argyhoeddiad sy'n arwain pobl grefyddol ac yn helpu i ddod ag ystyr i fywydau pobl trwy ddealltwriaeth neu brofiad o rym neu awdurdod eithaf. At ddiben Deddf Cydraddoldeb 2006, mae diffiniad 'cred' yn cynnwys credoau athronyddol megis dyneiddiaeth.

**Crefydd**
Mae Deddf Cydraddoldeb 2006 yn cynnwys diffiniadau o grefydd a chred y mae'n rhaid derbyn eu bod nhw'n argyhoeddiadol, o ddifrif, yn gydlynol ac yn gyson ag urddas dynol. Mae crefyddau mawr y byd yn systemau ysbrydol, diwinyddol, athronyddol, moesegol

cymhleth, sy'n seiliedig ar wirionedd a ddatgelir. Fel rheol, ceir hyd i'r gwirionedd a ddatgelir trwy brofiad crefyddol/cyfriniol/ysbrydol o Dduw neu'r Realiti Eithaf. Mae'r gwirionedd hwn a ddatgelir fel rheol yn darparu arweiniad ar safonau moesegol uchel o ymddygiad, ymgysylltiad ysbrydol, ystyr a phwrpas bywyd a ffordd i iachawdwriaeth, yn ystod y bywyd hwn ac wedyn, ac yn annog dilynwyr i geisio'r rhain. Pan fo crediniwr o ddifrif mae crefydd yn arwain pob agwedd ar ei fywyd, gan gynnwys ei agwedd tuag at y byd naturiol a phethau byw a'r ffordd mae'n parchu pobl eraill – dyma graidd ei holl fodolaeth.

**Diwylliant**
System o gredoau, systemau ystyr, gwerthoedd, arferion ac ymddygiad a rennir, a ddysgir ac a drosglwyddir o genhedlaeth i genhedlaeth neu a ddatblygir o fewn pob cenhedlaeth yw diwylliant. Gan nad yw'r berthynas rhwng yr hyn a addysgir a'r hyn a ddysgir yn absoliwt, mae diwylliant yn newid yn gyson (collir peth o'r hyn a drosglwyddir a gwneir darganfyddiadau newydd yn gyson a mabwysiedir nodweddion diwylliannol o grwpiau eraill). Er mwyn diffinio a deall diwylliant, mae angen deall sut mae 'diwylliannau' yn croesdorri â strwythurau a phrosesau eang mewn cymdeithas (Bhavnani et al, 2006)[11].

**Du**
Mae hwn yn derm a ddefnyddir yn gyffredinol i gyfeirio at bobl sydd â chroen tywyll o darddiad Affricanaidd neu Garibïaidd. Fodd bynnag, mae hefyd wedi'i ddefnyddio i ddisgrifio pobl y gwahaniaethir yn eu herbyn gan gymdeithas wyn-Ewropeaidd oherwydd eu cefndir ethnig. Yn hyn o beth, mae'n cynnwys pobl o darddiad Affricanaidd, Caribïaidd ac Asiaidd, a hyd yn oed Sbaenaidd. Mae'n well gan rai pobl gael eu disgrifio yn ôl eu hetifeddiaeth (er enghraifft, o etifeddiaeth Affricanaidd), ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn ystyried bod y term 'croen-dywyll' yn hen-ffasiwn a sarhaus. Efallai hoffai pobl sydd ag un rhiant du ac un rhiant gwyn, y cyfeirir atyn nhw yn aml fel 'hil gymysg', y geiriau 'o etifeddiaeth gymysg', 'o etifeddiaeth ddeuol' neu 'o deulu cymysg', ond gallai rhai hefyd eu hystyried eu hunain yn ddu. Fel arfer, mae'n well gofyn pa derm sy'n well ganddyn nhw, os bydd amheuaeth.

**Dwyieithrwydd**
Mae Hall et al (2001)[12] yn defnyddio'r term hwn i '. . . gyfeirio at ddisgyblion sy'n byw mewn dwy iaith, sydd yn gallu, neu angen, defnyddio dwy neu ragor o ieithoedd gartref ac yn yr ysgol. Nid yw'n golygu eu bod nhw'n rhugl yn y ddwy iaith na'u bod yn fedrus ac yn llythrennog yn y ddwy iaith.' (Gweler hefyd **Amlieithrwydd**.)

---

11 *Tackling the roots of racism: lessons for success* gan Reena Bhavani, Heidi Safia Mirza a Veena Meetoo (Policy Press, 2005)

12 *Assessing the Needs of Bilingual Pupils – Living in Two Languages* gan Deryn Hall, Dominic Griffiths, Liz Haslam ac Yvonne Wilkin (David Fulton Publishers, 2001)

Mae diffinio yn union pwy sy'n ddwyieithog a phwy nad yw 'yn anodd ac yn amhosibl yn y pen draw'[13]. Mae Baker yn awgrymu ei bod yn bwysig ystyried:

- gallu dwyieithog, sy'n digwydd mewn continwwm gydag amrywiol lefelau o hyfedredd o ran siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu
- pa bryd, ble, gyda phwy a pham y defnyddir yr ieithoedd (gartref, yn yr ysgol, ar y stryd, gwylio'r teledu, ac ati)
- swyddogaeth iaith o ran ffurfio perthynas (mewn gwahanol sefyllfaoedd cymdeithasol a diwylliannol) a chyfathrebu gwybodaeth.

**Ethnigrwydd**

Ymdeimlad o hunaniaeth ddiwylliannol a hanesyddol sydd wedi ei seilio ar fod yn perthyn i grŵp diwylliannol neilltuol trwy enedigaeth yw ethnigrwydd. Rydyn ni i gyd yn perthyn i o leiaf un grŵp ethnig ac efallai ein bod ni hefyd yn uniaethu â sawl grŵp ar yr un pryd (er enghraifft, Nigeriaidd, Affricanaidd, Du Prydeinig). Mae adroddiad y National College for School Leadership *Effective Leadership in Multi-Ethnic Schools* (2007)[14] yn nodi 'caiff syniadau am ethnigrwydd eu llunio'n gymdeithasol yn bennaf, ac maen nhw'n seiliedig ar werthoedd a safonau diwylliannol a rennir sy'n gwahaniaethu un grŵp oddi wrth y llall. Gall nifer o ffactorau amlygu'r ymdeimlad hwn o wahaniaeth diwylliannol, gan gynnwys iaith, hanes, llinach, crefydd a steil gwisgoedd.'

**Ffydd**

Cyfuniad o gred ac ymddiriedaeth yw ffydd. Mae'n ymrwymiad hollgynhwysol i rym eithaf neu realiti eithaf, a pherthynas â'r grym neu'r realiti hwnnw.

Mae'r term 'aml-ffydd' yn disgrifio'r holl doreth o draddodiadau crefyddol sy'n cyd-ddigwydd yn y Deyrnas Unedig. Bu dysgu am Gristnogaeth a'r prif grefyddau a gynrychiolir yn y Deyrnas Unedig yn ofyniad statudol mewn addysg grefyddol ers Deddf Diwygio Addysg 1988. Golyga hyn, ble bynnag lleolir ysgol, fod yn rhaid iddi

---

13 *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism* gan Colin Baker (Multilingual Matters, 2001)

14 *Effective Leadership in Multi-Ethnic Schools* (National College for School Leadership, 2007) **Part I: Priorities, Strategies and Challenges** gan Professor Allan Walker – Cadeirydd Department of Educational Administration and Policy at the Chinese University of Hong Kong

**Part II: School Community Perspectives and their Leadership Implications** gan Yr Athro Clive Dimmock, Dr Howard Stevenson, Brenda Bignold, Dr Saeeda Shah a David Middlewood – Centre for Educational Leadership and Management, University of Leicester

adlewyrchu natur aml-ffydd y wlad yn gyffredinol a chefnogi addysg grefyddol yn unol â gofynion maes llafur a gytunir yn lleol, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chydlyniad cymdeithasol.

Mae'r term 'rhyng-ffydd' yn cyfeirio at y gwaith a wneir i greu trafodaeth gadarnhaol a chydweithrediad clòs rhwng gwahanol grwpiau crefyddol. Yng Nghymru, er enghraifft, mae'r Prif Weinidog wedi sefydlu Fforwm Cymunedau Ffydd lle mae cynrychiolwyr o bob crefydd yn cwrdd i drafod materion o ddiddordeb cyffredin. Mae Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) yn aml yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol grwpiau ffydd yng Nghymru a/neu yn derbyn cyngor ganddyn nhw, er mwyn cynghori'n well ar natur addysg grefyddol.

**Gwahaniaethu**
Trin un grŵp penodol yn llai ffafriol nag eraill oherwydd eu hoedran, rhyw, anabledd, rhywioldeb, hil, lliw eu croen, cenedligrwydd, neu dras ethnig neu genedlaethol yw gwahaniaethu. Mae'r gyfraith yn y Deyrnas Unedig yn cydnabod dau fath o wahaniaethu hiliol: uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd pan fo oedran, rhyw, anabledd, rhywioldeb, hil, lliw croen, cenedligrwydd, neu dras ethnig neu genedlaethol yn cael ei ddefnyddio fel rheswm penodol dros wahaniaethu. Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pan fo rheolau, rheoliadau neu weithdrefnau ar waith sy'n gwahaniaethu yn erbyn rhai grwpiau o bobl (Sefydliad Cysylltiadau Hiliol/Institute of Race Relations).

**Gwrth-hiliaeth**
Mae gwrth-hiliaeth yn ystyried sut ffurfir agweddau hiliol, dylanwad cysylltiadau cymdeithasol, a datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar gyfer asesu gwybodaeth yn feirniadol, ac archwilio ac ystyried eu hagweddau, eu hymatebion a'u hymddygiad cymdeithasol eu hunain a rhai pobl eraill. Bydd hyn yn cynnwys astudio anghydraddoldeb yn y gorffennol a'r presennol – er enghraifft, caethwasiaeth, gwladychiaeth, perthynas anghyfartal a strwythurau grym, a hiliaeth a gwahaniaethu sefydliadol a threfniadaethol.

**Hawliau dynol**
Datblygodd y cysyniad o hawliau dynol fel ymateb byd-eang i erchyllterau'r Holocost – fel modd i adeiladu cymdeithasau lle na ellid caniatáu i weithredoedd anfad o'r fath ddigwydd byth eto, er mwyn gwarchod cenedlaethau'r dyfodol rhag niwed, a'u galluogi i fyw gydag urddas ac mewn amgylchedd diogel, waeth beth fo'u grŵp ethnig, eu hoedran, eu hil, eu crefydd, eu hanabledd neu'u cyfeiriadedd rhywiol.

Roedd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (1948) yn eiliad dyngedfennol, pan welodd llawer o gysyniadau cyfarwydd, megis triniaeth gyfartal, olau dydd am y tro cyntaf. Dilynodd y Confensiwn

Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (1950) wedyn, ac yn dilyn hynny cafodd hawliau dynol eu hymgorffori mewn statud cenedlaethol yn sgîl Deddf Hawliau Dynol (1998) y DU. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i barchu hawliau dynol pob unigolyn sy'n cael mynediad i'w gwasanaethau, ac mae'n berthnasol i bawb sy'n byw yn y DU, waeth beth fo'u dinasyddiaeth neu'u statws o ran mewnfudo.

**Hil**
Ni cheir unrhyw ddulliau penodol neu ddibynadwy o rannu'r ddynol ryw yn wahanol is-gategorïau ar sail hil. Lluniad cymdeithasol yn hytrach na biolegol yw hil, er caiff ei defnyddio'n aml i gyfeirio at nodweddion corfforol megis lliw croen, ac nid yw'n nodwedd gellir ei mesur. Mae 'hil' yn berthynas gymdeithasol lle caiff safleoedd strwythurol a gweithredoedd cymdeithasol eu mynnu, eu cyfiawnhau a'u hesbonio gan gyfeiriadau at systemau a symbolau credoau, sy'n pwysleisio perthnasedd cymdeithasol a diwylliannol nodweddion sydd â gwreiddiau biolegol (Bhavnani, Mirza a Meetoo, 2006, op. cit.).

**Hiliaeth**
Unrhyw enghraifft o wahaniaethu, eithrio, cyfyngu neu ffafrio ar sail hil, lliw croen, tras, neu darddiad cenedlaethol neu ethnig, â'r diben neu'r effaith o ddileu neu amharu ar y gallu i gydnabod, mwynhau neu arfer hawliau dynol a rhyddid sylfaenol, ar sail gyfartal, mewn bywyd gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, diwylliannol neu unrhyw agwedd arall ar fywyd cyhoeddus (National Council for Curriculum and Assessment, 2005, op. cit.).

Defnyddir y term hwn mewn gwahanol ffyrdd, ac mae hyn, mewn rhai achosion, wedi arwain at anawsterau o ran dangos y gwahaniaeth rhwng hiliaeth sy'n amlwg ragfarnllyd a hiliaeth ddiarwybod sy'n codi o ddiffyg gwybodaeth neu ymwybyddiaeth, ac o beidio ag ystyried realiti bywydau pobl eraill. Bu methiant hefyd o ran nodi'r gwahaniaeth rhwng gweithredoedd amlwg, bwriadol o wahaniaethu hiliol a ffurfiau eraill mwy cynnil o 'hiliaeth sefydliadol'. Gallai dryswch fodoli hefyd rhwng ffurfiau cymdeithasol (er enghraifft, dynameg grŵp o osod rhai 'ar y tu allan') a ffurfiau seicolegol (o ran agwedd) o hiliaeth, a fynegir mewn gwahanol ffurfiau, a achosir gan wahanol bethau, ac sydd angen sylw mewn gwahanol ffyrdd. O ran ysgolion, mae hyn yn amlygu'r angen am wahanol ffurfiau ar ymyrraeth, a hynny yn unol â'r cyd-destun lleol.

- **Hiliaeth sefydliadol** – cymhwyso rheolau cyffredinol a/neu arferion nad ydyn nhw yn caniatáu ar gyfer gwahaniaethau diwylliannol, gan gynnwys gwahaniaethu anuniongyrchol, diffyg mesurau rhagweithiol i atal gwahaniaethu, diffyg arbenigedd neu hyfforddiant proffesiynol wrth ymdrin ag amrywiaeth, a diffyg

cyfleusterau ymarferol ar gyfer ymgynghori â phobl leiafrifol o bob grŵp hiliol neu o rai grwpiau hiliol penodol, a gwrando arnyn nhw.

- **Hiliaeth anuniongyrchol** – arferion a/neu bolisïau nad ydyn nhw yn ymddangos, ar y wyneb, fel petaen nhw'n rhoi unrhyw un grŵp dan fwy o anfantais nag un arall, ond sy'n creu effaith wahaniaethol mewn gwirionedd.
- **Hiliaeth unigol** – trin unigolyn arall yn llai ffafriol ar sail ei darddiad diwylliannol.

(National Council for Curriculum and Assessment, 2005, op. cit.)

Mae grwpiau ffydd ac ethno-grefydd lleiafrifol, penodol yn dioddef rhai mathau o hiliaeth:

- **Islamoffobia** – gelyniaeth ddi-sail tuag at Islam sy'n arwain at wahaniaethu yn erbyn unigolion a chymuned Mwslimaidd ac sy'n eithrio Mwslimaidd o faterion gwleidyddol a chymdeithasol prif ffrwd (Runnymede Trust, 1997)[15].
- **Gwrth-semitiaeth** – gelyniaeth, casineb neu ofn di-sail tuag at Iddewon a phethau Iddewig, a amlygir mewn agweddau a gweithredoedd gwahaniaethol (Hussain, 2005)[16].

**Hunaniaeth**
Mae hunaniaeth yn ymwneud yn bennaf â hunanddelwedd a pha ddelwedd sydd gan bobl ohonyn nhw eu hunain, ond gall barn pobl eraill effeithio arni hefyd. Fe'i llunnir gan gymdeithas, ac mae'n lluosog. Bydd yn newid wrth i unigolion newid o un hunaniaeth i'r llall mewn gwahanol gyd-destunau ac ar wahanol adegau. Gall pobl sydd â'r un hunaniaeth ethnig neu genedlaethol fod â gwahanol safbwyntiau a phrofiadau.

**Plwraliaeth**
Dathlu gwahaniaeth o fewn cymdeithas, gan ganiatáu i bob grŵp ethnig a grwpiau lleiafrifol eraill gadarnhau eu hunaniaeth heb greu gwrthdaro â'r boblogaeth fwyafrifol (National Council for Curriculum and Assessment, 2005, op. cit.).

**Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig**
Er nad yw'r term hwn yn hollol foddhaol, mae'n cael ei ddefnyddio'n aml i gyfeirio at bob grŵp o bobl yn y Deyrnas Unedig nad ydyn nhw o gefndir Prydeinig, gwyn.

**Rhagfarn**
Barn ragdybiedig, tueddiadau unochrog yw rhagfarn, e.e anabledd, hil, rhyw, oedran, crefydd a rhywioldeb.

---

15 *Islamophobia: A challenge to us all* (Runnymede Trust, 1997)

16 *Cultural competence in family support: a toolkit for working with black, minority ethnic and faith families* gan Fatima Hussain (National Family and Parenting Institute, 2005)

# Atodiad 2

## Cyfleoedd yn y cwricwlwm ysgol

Nod yr adran hon yw darparu man cychwyn i athrawon ystyried y ffordd orau i gynnwys hybu cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth yn eu cynlluniau addysgu a dysgu. Mae'r canllawiau hyn yn amlygu rhai cyfleoedd a allai godi'n naturiol fel sail ar gyfer dull gwaith cynhwysol.

Mae'r mapiau meddwl ar gyfer y pynciau yn canolbwyntio'n bennaf ar Gyfnodau Allweddol 2 a 3 y cwricwlwm (h.y. dysgwyr 7–14 oed). Bydd athrawon yn adnabod bod rhai cysyniadau yn fwy priodol ar gyfer un cyfnod allweddol na'r llall, neu mewn rhai achosion, byddan nhw'n ymdrin â'r un cysyniad ond â chymhlethdod cynyddol ar gyfer dysgwyr hŷn. Bydd yr un cysyniadau yr un mor berthnasol i Gyfnod Allweddol 4 a thu hwnt ar gyfer rhai pynciau.

Ym mhob map meddwl pwnc, cynhwysir cangen benodol ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig gan ddylai hwn fod yn rhan annatod o Gyfnodau Allweddol 2 a 3 y cwricwlwm. Awgrymir cysylltiadau â phynciau eraill ar draws y cwricwlwm, ynghyd â chysylltiadau â'r fframwaith addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF), sy'n darparu cyd-destun trosfwaol. Ceir canllawiau mwy manwl ar gyfer ADCDF, gan gynnwys syniadau fesul pwnc, ar-lein.

# ABCh

**CA3**

- Datblygu agweddau cadarnhaol atyn nhw eu hunain/at eraill
- Deall yr amrywiaeth o emosiynau maen nhw wedi profi a sut i ddatblygu strategaethau ar gyfer ymdopi â theimladau negyddol

**CA2**

- Teimlo'n gadarnhaol amdanyn nhw eu hunain, bod yn sensitif tuag at deimladau pobl eraill
- Deall ystod eu teimladau/emosiynau eu hunain a phobl eraill

**CA2**

- Archwilio gwerthoedd personol
- Bod yn onest, yn deg, parchu rheolau, y gyfraith ac awdurdod
- Deall sut mae gwerthoedd diwylliannol a chredoau crefyddol yn dylanwadu ar y ffordd mae pobl yn byw
- Deall bod gan bobl syniadau gwahanol ynglŷn â'r hyn sy'n iawn/ddim yn iawn
- Deall bod i weithredoedd personol eu canlyniadau

**CA3**

- Datblygu dirnadaeth o'u gwerthoedd
- Dangos sensitifrwydd at werthoedd pobl eraill
- Deall beth sy'n iawn/ddim yn iawn yn eu barn nhw a'r cyfyng-gyngor moesol sydd ynghlwm wrth sefyllfaoedd mewn bywyd
- Deall eu credoau yng nghyd-destun credoau cymdeithas

**CA3**

- Trysori/dathlu amrywiaeth a chyfle cyfartal yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- Cael eu cythruddo gan anghyfiawnder, camfanteisio, gwrthod hawliau dynol
- Sut gall pobl ifanc gael gwrandawiad i'w llais, a dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau
- Sut i adnabod a herio rhagfarn
- Datblygu parch atyn nhw eu hunain/at eraill

**CA2**

- Deall hawliau a chyfrifoldebau nhw eu hunain a phobl eraill
- Deall manteision teuluoedd, ffrindiau, a materion a all godi
- Deall agweddau ar dreftadaeth ddiwyllianol ac amrywiaeth yng Nghymru
- Deall sut gall anghyfiawnder ac anghydraddoldeb effeithio ar fywydau pobl
- Trysori amrywiaeth a chydnabod pwysigrwydd cyfle cyfartal
- Trysori teuluoedd/ffrindiau fel ffynhonnell cefnogaeth
- Datblygu parch atyn nhw eu hunain/at eraill

**CA3**

- Gwerthfawrogi bod gwerthoedd pobl yn dylanwadu ar eu gweithredoedd a'u safbwyntiau

**CA2**

- Datblygu agwedd gadarnhaol ynglŷn â materion tlodi a thegwch

## Celf a dylunio

**Gwneud**

**Dylunio a thechnoleg**

- Archwilio ac arbrofi â dulliau a ddefnyddiwyd gan grefftwyr o amrywiaeth o gyfnodau a lleoedd
- Gwerthfawrogi'r cyd-destun ar gyfer y dulliau a ddefnyddiwyd
- Mynegi hunaniaeth bersonol a diwylliannol

**Deall**

**ADCDF**

- Defnyddio geirfa amrywiol i drafod teimladau ac emosiynau a gyflwynir mewn lluniau/cerfluniau, gan gynnwys hawliau dynol a thegwch/gwrthdaro
- Gwerthfawrogi stereoteipio
- Mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â hiliaeth, rhagfarn a pharch am amrywiaeth

**Y Cwricwlwm Cymreig**

**ADCDF**

- Datblygu dealltwriaeth ystyrlon o'r amgylchedd, y diwylliant a'r iaith sydd o'u cwmpas

**Ymchwilio**

- Disgrifio a chymharu eich gwaith eich hun â gwaith pobl eraill
- Datblygu ymwybyddiaeth o safbwyntiau diwylliannol gwaith gwreiddiol
- Sut mae darluniau yn cefnogi gwahanol safbwyntiau
- Cyfryngau/ffotograffau fel gwahanol gynrychioliadau
- Dylanwad patrymau mewn diwylliannau eraill ar eich gwaith eich hun

**TGCh**

**Mathemateg**

# Dylunio a thechnoleg

## Systemau a rheoli

**TGCh**

- Archwilio ac ymchwilio i gynhyrchion syml o wahanol rannau o'r byd
- Defnyddio gwybodaeth i ddylunio a gwneud
- Technoleg o wahanol ddiwylliannau a dylanwadau
- Defnyddio ynni gwynt/dŵr mewn gwahanol wledydd/diwylliannau
- Mecanweithiau/golau/ac ati fel rhan o ddathliadau gwahanol

## Dylunio/Gwneud

**TGCh**

- Defnyddio amrywiaeth o wybodaeth i greu syniadau
- Dangos meddwl creadigol wrth ystyried a chofnodi atebion i broblemau ac atebion o wahanol ddiwylliannau
- Myfyrio ar waith dylunwyr, dyfeiswyr, penseiri a chogyddion o ystod eang o ddiwylliannau

**ADCDF**

## Y Cwricwlwm Cymreig

**ADCDF**

- Defnyddio nodweddion ac adnoddau cyfoethog Cymru fel ysbrydoliaeth a chyd-destun ar gyfer dylunio a gwneud cynhyrchion

## Bwyd

**Gwyddoniaeth**

- Deiet mewn gwahanol wledydd/diwylliannau/crefyddau
- Tarddiad cynhwysion
- Negeseuon bwyta'n iach yng nghyd-destun gwahanol anghenion maethol mewn gwahanol ddiwylliannau
- Ystyried a defnyddio gwahanol dechnegau paratoi ar gyfer bwyd o wahanol ddiwylliannau

**Daearyddiaeth**

## Defnyddiau

- Dewis defnyddiau addas ac ystyried ffynonellau – defnyddiau/dilladau o wahanol ddiwylliannau
- Dulliau cynhyrchu cynaliadwy, ecogyfeillgar mewn gwahanol wledydd – defnyddiau wedi'u hailgylchu

**Gwyddoniaeth**

# Cymraeg/Saesneg

## Sgiliau darllen

**Daearyddiaeth/ADCDF**

- Testunau o wahanol ddiwylliannau
- Testunau/erthyglau sy'n annog trafodaeth ar hiliaeth, rhagfarn, tueddiad unochrog ac ati
- Testunau sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yng Nghymru/Ewrop/y byd
- Testunau sy'n dangos delweddau cadarnhaol o wahanol wledydd/diwylliannau
- Defnyddio deunydd yn gynyddol i ymestyn dealltwriaeth ddeallusol, foesol ac emosiynol dysgwyr
- Testunau yn egluro chwarae teg/cydraddoldeb/stereoteipio

**Y Cwricwlwm Cymreig**

## Sgiliau llafar

**Ieithoedd tramor modern**

- Seiniau o wahanol ieithoedd
- Cysylltiadau rhwng ieithoedd
- Gwahanol acenion a thafodieithoedd
- Cefnogaeth drwy ystumio/iaith y corff
- Trafod/cyfaddawdu
- Barn resymegol
- Drama – archwilio hunaniaeth, perthyn, hawliau, cyfrifoldebau, tebygrwydd/gwahaniaethau, gwrthdaro, gwahaniaethu, teimladau, empathi, safbwyntiau gwahanol, prosesau democrataidd

## Y Cwricwlwm Cymreig

**ADCDF**

- Datblygu dealltwriaeth o'r hunaniaeth ddiwylliannol sy'n unigryw i Gymru
- Astudio testunau a chyfryngau eraill, a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n archwilio materion sy'n berthnasol i fywyd yng Nghymru

## Sgiliau ysgrifennu

- Gwahanol systemau a gwyddorau
- Gwahaniaethau rhwng yr iaith lafar ac iaith ysgrifenedig
- Ysgrifennu o wahanol ddiwylliannau
- Symbyliadau ar gyfer drama, chwarae rôl
- Tarddiad gwahanol ieithoedd
- Ysgrifennu mewn gwahanol *genres* ac ymateb iddyn nhw
- Cefnogi dadl, barn
- Creu newid
- Mynegi hunaniaeth bersonol/ddiwylliannol
- Pynciau megis hiliaeth a chydraddoldeb

**Addysg grefyddol**

Dylai athrawon ddefnyddio gwybodaeth dysgwyr am ieithoedd eraill i gefnogi Cymraeg/Saesneg a gellir amlygu manteision amlieithrwydd.

# Daearyddiaeth

## Ymchwilio

**TGCh**

- Materion yng Nghymru
- Pwysigrwydd bod yn ddinesydd byd-eang
- Stiwardiaeth cefn gwlad
- Agweddau gwahanol ddiwylliannau/crefyddau at reoli'r amgylchedd
- Pobl fel defnyddwyr
- Hawliau dynol (EHRC), e.e. digartrefedd, addysg, yr hawl i weithio
- Y cyfraniad a wneir gan wahanol ddiwylliannau i Gymru
- Sut mae fy ngweithrediadau a gweithrediadau pobl eraill yn gwneud gwahaniaeth i'r amgylchedd?

## Lleoli a deall lleoedd, patrymau a phrosesau amgylcheddol

**Gwyddoniaeth**

- Nodi a disgrifio'r cysylltiad rhwng lleoedd ac amgylcheddau (yn lleol ac yn fyd-eang), e.e. patrymau lleol o ansawdd bywyd ac amgylcheddau
- Nodi tebygrwydd a gwahaniaethau er mwyn disgrifio, cymharu a chyferbynnu lleoedd ac amgylcheddau
- Herio dealltwriaeth o fasnach – cytundebau masnach deg
- Herio stereoteipiau o bobl sy'n byw mewn gwledydd eraill ar wahanol lefelau o ddatblygiad economaidd
- Deall y gwahanol elfennau sy'n nodweddu lleoedd

## Cyfathrebu

- Mynegi eich barn eich hun ar y materion yr ymchwiliwyd iddyn nhw, a bod yn ymwybodol o farn a safbwyntiau pobl eraill
- Gofyn ac ateb cwestiynau, a chymharu safbwyntiau ar yr amgylchedd lleol a byd-eang
- Nodi a herio stereoteipiau

**ADCDF**

## Y Cwricwlwm Cymreig

- Datblygu ymdeimlad o le a hunaniaeth drwy ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng cymunedau a rhwng rhanbarthau yng Nghymru
- Datblygu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng Cymru a gwledydd eraill

**ADCDF**

# Hanes

**ADCDF**

## Ymchwilio hanesyddol

Defnyddio ffynonellau o wahanol ddiwylliannau sy'n berthnasol i'w profiad eu hunain

Adnabod stereoteipio a rhagfarn, a gwneud synnwyr o'r ffordd mae hanes, yn y gorffennol, wedi anwybyddu rhai cyfraniadau/safbwyntiau

Dylid addysgu syniadau gwleidyddol fel gwrthsafiad, hawliau dynol, democratiaeth a chydraddoldeb yn benodol gyda chyfleoedd i herio rhagfarn a gwerthuso ffynonellau o wahanol safbwyntiau gan ddefnyddio profiadau'r dysgwyr eu hunain neu eu teuluoedd pan fo hynny'n bosibl

## Ymwybyddiaeth gronolegol

**ADCDF**

Ystyried gwahanol ffyrdd o fyw dros amser ymhlith pobl o gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol gwahanol

## Dehongli hanes

Cydnabod gwahanol safbwyntiau ar ddigwyddiadau hanesyddol, gan gynnwys gwahanol ddiwylliannau/crefyddau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth hanesyddol

Ystyried pobl arwyddocaol o wahanol grwpiau ethnig a diwylliannau

Hanes gweithwyr sydd wedi ymfudo i Gymru

Ystyried y cyfraniad economaidd a diwylliannol a wnaed gan weithwyr wedi ymfudo i Gymru

Astudio unigolion a digwyddiadau sydd wedi ffurfio ein byd heddiw o amrywiaeth o wahanol ddiwylliannau

**Daearyddiaeth**

## Y Cwricwlwm Cymreig

Canolbwyntio ar hanes lleol a Chymreig i ddeall y ffactorau sydd wedi ffurfio Cymru a gwledydd eraill heddiw

# Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

## Darganfod a dadansoddi gwybodaeth

**Addysg grefyddol**

- Dysgu am y defnydd o TGCh yn y byd ehangach
- Dysgu am wahanol ddiwylliannau, crefyddau ac ieithoedd
- Ymchwilio i faterion sy’n ymwneud â hiliaeth, rhagfarn a chyfleoedd cyfartal
- Gwerthuso gwefannau yn feirniadol
- Ystyried effaith TGCh ar faterion cymdeithasol, economaidd, moesegol a moesol, e.e. datblygu telathrebu byd-eang, datblygu meddalwedd, ac ati

## Creu a throsglwyddo gwybodaeth

**Ieithoedd tramor modern**

- Defnyddio TGCh i gyfathrebu â dysgwyr mewn gwledydd eraill
- Defnyddio fforymau e-bost i rannu gwahanol farn a safbwyntiau

## Y Cwricwlwm Cymreig

**ADCDF**

- Canfod a dadansoddi gwybodaeth am nodweddion cyfoethog Cymru
- Cyfleu teimladau mewn sawl ffordd

## Mathemateg

**Siâp, safle a symud**

**Celf a dylunio**

Adlewyrchiad a chymesuredd mewn patrymau o wahanol ddiwylliannau, e.e. tangramau, origami

ADCDF

**Rhif**

Rhifau negyddol – y tymheredd mewn gwahanol wledydd

Edrych ar darddiad gwahanol systemau rhif a'u datblygiad, e.e. yr abacws

**Mesurau ac arian**

Gwahanol arian cyfredol – cymharu cyfraddau cyfnewid ac edrych ar yr hyn gellid ei brynu mewn gwahanol wledydd gyda symiau penodol o arian

**Trin data**

**Daearyddiaeth**

Dadansoddi a chymharu maint y boblogaeth mewn gwahanol wledydd

Gwneud dadansoddiad ystadegol yn ymwneud â materion cymdeithasol

Cymharu dangosyddion economaidd, masnachol ac iechyd, a dosbarthiad cyfoeth

Defnyddio canlyniadau dadansoddi data i ofyn cwestiynau am hiliaeth a rhagfarn

ADCDF

**Y Cwricwlwm Cymreig**

Dysgu a chymhwyso mathemateg yng nghyd-destun data o gymunedau lleol y dysgwyr eu hunain, o'r amgylchedd lleol a chenedlaethol, ac o faterion cyfredol sy'n berthnasol i Gymru

# Ieithoedd tramor modern

## Dealltwriaeth ryngddiwylliannol

**ADCDF**

- Dathlu, cymharu a gwerthfawrogi gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng ieithoedd (trawsgwricwlaidd)
- Datblygu sensitifrwydd tuag at wahanol ddiwylliannau a gwerthoedd
- Gwerthfawrogi pwysigrwydd ieithoedd yng nghymdeithas fyd-eang yr unfed ganrif ar hugain ac ar gyfer y byd gwaith
- Cael gafael ar ddeunyddiau gwreiddiol a gweithio gyda nhw
- Ymadweithio â siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr yr iaith darged sydd â phrofiad diweddar ac ymarferol o'r iaith
- Datblygu ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau, newyddion, pobl a materion cyfoes sy'n gysylltiedig â gwledydd a chymunedau'r iaith darged

**Daearyddiaeth**

## Addysgu a dysgu

**ADCDF**

- Datblygu agweddau cadarnhaol tuag at siaradwyr ieithoedd eraill
- Darparu cyfleoedd i gymharu rhwng gwahanol ieithoedd
- Dangos y gall siaradwyr yr iaith darged ddod o nifer o wahanol gefndiroedd ethnig
- Nodi enghreifftiau da a phersonoliaethau cadarnhaol
- Darparu arwyddion a hysbysiadau amlieithog sy'n gwerthfawrogi ac yn adlewyrchu ieithoedd mewn ysgol
- Gwahodd siaradwyr ieithoedd eraill i roi gwersi enghreifftiol yn eu hieithoedd nhw ar gyfer pob dysgwr

**Hanes**

## Y Cwricwlwm Cymreig

- Gwerthfawrogi a chymharu eu diwylliant, eu hiaith a'u cymunedau eu hunain â rhai gwledydd a chymunedau'r iaith darged
- Astudio iaith newydd yn cefnogi datblygiad sgiliau ieithyddol a all wella'r broses o ddysgu Cymraeg

# Cerddoriaeth

## Gwerthuso

**ADCDF**

- Gwrando ar gerddoriaeth o *genres* ac arddulliau amrywiol, ac o wahanol gyfnodau a diwylliannau, a'i gwerthuso; datblygu i ystyried cerddoriaeth a gyfansoddwyd ar gyfer gwahanol gyfryngau a dibenion
- Ystyried y technegau a ddefnyddir wrth gyfansoddi
- Cymharu offerynnau o wahanol ddiwylliannau
- Ystyried sain/amrywiaeth acenion/iaith; datblygu i ymdrin â materion cyfle cyfartal (e.e. reggae), hiliaeth a rhagfarn
- Ystyried sut defnyddiwyd cerddoriaeth i archwilio hunaniaeth bersonol, problemau cymdeithasol, ac ati

**Ieithoedd tramor modern** **Hanes**

## Perfformio

**ADCDF**

- Canu a chwarae cerddoriaeth o'r gorffennol a'r presennol, o draddodiadau a diwylliannau amrywiol
- Defnyddio fel ysgogiad i ystyried materion megis gwahaniaethu (e.e. caneuon ysbrydol) neu themâu hawliau dynol

**Addysg grefyddol**

## Cyfansoddi

- Defnyddio symbyliadau amrywiol o wahanol gyfnodau a lleoedd
- Archwilio ffynonellau sain a ddefnyddir gan wahanol ddiwylliannau

## Y Cwricwlwm Cymreig

- Perfformio ac yn gwrando ar gerddoriaeth o Gymru, o'r gorffennol a'r presennol – mae hyn yn cynnwys cerddoriaeth o draddodiadau a diwylliannau eraill sy'n cynrychioli cymunedau Cymru

# Addysg gorfforol

## Gweithgareddau cystadleuol

**ADCDF**

Chwarae gwahanol gemau/athletau gan ddangos tebygrwydd a gwahaniaethau ar draws rhanbarthau a gwledydd

Safonau chwarae teg, cydraddoldeb ac ymddygiad priodol mewn gwahanol chwaraeon gan ddefnyddio enghreifftiau da amrywiol; archwilio gwahaniaethau diwylliannol sy'n dod i'r amlwg

Herio stereoteipiau a gwisgoedd penodol (gweler materion iechyd a diogelwch)

Defnyddio gemau tîm megis pêl-droed fel llwyfan i drafod hiliaeth a materion cymdeithasol megis parch

## Gweithgareddau antur

Defnyddio sgiliau mewn amgylcheddau cyfarwydd ac anghyfarwydd, gan ddangos parch at amgylcheddau y tu hwnt i'r ardal leol

Canolbwyntio ar weithgareddau arbenigol, megis dringo a chyfeiriadu, i hybu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol a chadwraeth sy'n adlewyrchu mamwledydd y dysgwyr

**Daearyddiaeth**

## Gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles

**Gwyddoniaeth**

Sgiliau cymdeithasol a gwaith tîm er mwyn chwarae teg a chymryd cyfrifoldeb, e.e. rheolau sy'n gysylltiedig â chrefft ymladd, diwylliant y Dwyrain

Gwybodaeth am ddeiet yn ystod dyddiau gŵyl penodol (e.e. Ramadan) a sut mae'n effeithio ar ymarfer corff a chymryd rhan

Datblygu ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â dyddiau gŵyl a defodau diwylliannol sy'n effeithio ar batrymau bwyta, gwisgo gemwaith ac ati

Herio stereoteipio gwisgoedd penodol a disgwyliadau, e.e. rhyw – materion gwedduster, yr angen i barchu diwylliant heb beryglu iechyd a diogelwch

**Addysg grefyddol**

## Y Cwricwlwm Cymreig

**Celf a dylunio**

Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol Cymru drwy weithgareddau creadigol ac antur, a defnyddio gwahanol ysgogiadau cerddorol a llenyddol i ddatblygu syniadau ar gyfer dawns

## Gweithgareddau creadigol

**Cerddoriaeth**

Defnyddio symudiadau o wahanol ddiwylliannau i gyfleu syniadau, arddulliau a theimladau, a thraddodiadau gwahanol grwpiau diwylliannol, e.e. coreograffi mewn gymnasteg/dawns/nofio

Datblygu coreograffi mwy cymhleth wrth ymateb i ysgogiad sy'n hybu dealltwriaeth o ddiwylliannau ar draws Cymru a'r byd

# Addysg grefyddol

### Mynegi ymatebion personol

**ADCDF**

- Gwerthfawrogi, parchu a dangos empathi â safbwyntiau a chredoau pobl eraill
- Rhannu credoau, agweddau a gwerthoedd cyffredin sy'n cefnogi cydraddoldeb a phryderon cymunedol
- Ymateb yn gadarnhaol i Gymru, Ewrop a'r byd aml-ddiwylliannol/aml-ffydd

### Ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol

**ADCDF**

- Archwilio hunaniaeth grefyddol/ddiwylliannol, perthyn a phwrpas
- Ymchwilio i syniadau, gwerthoedd a chredoau crefyddol/diwylliannol
- Myfyrio ar gwestiynau heriol sy'n ymwneud â gwerthoedd cyffredinol

### Y Cwricwlwm Cymreig

- Gwerthfawrogi arwyddocâd, gwerth ac effaith treftadaeth Gristnogol gyfoethog a chyfansoddiad aml-ffydd dynamig Cymru yn awr ac yn y gorffennol
- Bydd dysgwyr yn cael eu herio i ofyn cwestiynau sylfaenol am ystyr a phwrpas bywyd, ac arwyddocâd ac effaith crefydd a meddwl crefyddol ar gymdeithas yr unfed ganrif ar hugain
- Mae'r ddirnadaeth a gafwyd yn cefnogi cydlyniad cymdeithasol, ymwybyddiaeth ddiwylliannol/grefyddol a chydweithio o fewn cymdeithas a chymunedau unigol

### Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol

- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gristnogaeth a chrefyddau blaenllaw eraill yn y Deyrnas Unedig mewn modd agored
- Ystyried effaith a dylanwad crefydd/diwylliant ar fywydau pobl
- Nodi undod ac amrywiaeth o fewn crefyddau
- Rhannu ymdeimlad o gymuned drwy ddathliadau yn y cartref/yn y gymuned

# Gwyddoniaeth

## Sut mae pethau'n gweithio

**Cerddoriaeth**

- Sain – offerynnau cerdd o wahanol rannau o'r byd
- Tarddiad diwylliannol gwahanol gerddoriaeth/offerynnau
- Deunyddiau adeiladu o wahanol rannau o'r byd
- Cyfraniad gwyddonwyr o wahanol grwpiau ethnig a diwylliannol
- Cyffredinolrwydd dulliau gwyddonol

## Annibyniaeth a chyd-ddibyniaeth organebau

**Addysg gorfforol**

- Tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng bwyd, deiet, ymarfer corff, patrymau cysgu ac ati mewn gwahanol ddiwylliannau
- Gwrthdaro yn y byd naturiol – adnoddau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd
- Anghenion dynol a hawliau dynol
- Cyffuriau a dyfir/a gynhyrchir mewn gwahanol wledydd – unrhyw faterion yn ymwneud â chamfanteisio?

## Ynni

**ADCDF**

- Astudio gwahanol adnoddau ynni mewn gwahanol wledydd yng nghyd-destun gwahanol anghenion lleol

## Y Cwricwlwm Cymreig

- Defnyddio cyd-destunau sy'n berthnasol i fywydau dysgwyr yng Nghymru – mae'r amgylchedd cyfoethog ac amrywiol sydd o amgylch y dysgwyr yn rhoi'r sail i waith maes

## Y Ddaear gynaliadwy

**Daearyddiaeth**

- Hyd y diwrnod a'r effaith ar weithgareddau o amgylch y byd
- Defnyddiau a gynhyrchir mewn gwahanol wledydd, e.e. diemwntau, rwber
- Deunyddiau naturiol a rhai synthetig a'u defnyddiau ar gyfer gwahanol bwrpasau, e.e. gwlân, dŵr, gwydr, papur ac ati
- Gofalu am yr amgylchedd – cyfrifoldeb, tegwch, mynediad, sbwriel, fandaliaeth, gwrthdaro, rhagfarn
- Edrych ar wahanol faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd mewn gwahanol wledydd ac economïau

**ADCDF**

# Atodiad 3

## Cyfleoedd yn y Llwybrau Dysgu 14–19

Bydd cyfleoedd i fynd i’r afael â chydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth ar gael o fewn llwybrau dysgu unigol. Er nad yw nifer o’r pynciau yn statudol yn ystod y cyfnod 14–19, bydd llawer o ddysgwyr yn astudio meysydd llafur TGAU/TAG, a cheir cyfleoedd mewn llawer o’r rhain i feithrin dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth. Trwy’r craidd 14–19, gall ysgolion/darparwyr dysgu ddatblygu’r sgiliau, yr wybodaeth a’r ddealltwriaeth, yr agweddau a’r gwerthoedd a amlinellir isod – datblygu meddwl (datrys problemau, gwella’ch dysgu a’ch perfformiad eich hun, a gweithio gydag eraill), datblygu cyfathrebu, datblygu TGCh a datblygu rhif; profiadau sy’n canolbwyntio ar fyd gwaith; materion personol a chymdeithasol, a materion yn ymwneud â chynaliadwyedd ac iechyd; cyfranogiad cymunedol; a chyfleoedd ym meysydd diwylliant, chwaraeon, estheteg a chreadigrwydd. Rhoddir rhai enghreifftiau isod, a dangosir cyfleoedd o fewn ABCh ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16 mewn map meddwl ar wahân.

| **Datblygu meddwl** (datrys problemau, gwella’ch dysgu a’ch perfformiad eich hun, gweithio gydag eraill) | **Datblygu cyfathrebu** (cyfathrebu) | **Datblygu TGCh** (TGCh) | **Datblygu rhif** (cymhwyso rhif) |
|---|---|---|---|
| Gofyn cwestiynau; dod o hyd i wybodaeth a syniadau perthnasol; defnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau i ymchwilio a chael gwybodaeth; ystyried tystiolaeth; gwerthuso tuedd a dibynadwyedd, dilysrwydd gwybodaeth; ffurfio barn drwy ystyried tystiolaeth; ymateb i farn pobl eraill yn ogystal ag i waith eich hun; cysylltu’r hyn sy’n cael ei ddysgu â sefyllfaoedd y tu allan i’r ysgol; mireinio dysgu ar gyfer gwaith yn y dyfodol. | Cymryd rhan mewn trafodaethau gan chwarae rolau amrywiol; nodi negeseuon allweddol; cyfosod gwybodaeth; gwerthuso technegau, gwaith a chynnwys gwahanol destunau/ysgrifenwyr; gwneud cyflwyniadau gan ddefnyddio gwybodaeth ysgrifenedig glir a rhesymegol; cynnal cyfarfodydd; cyfweld pobl o gefndir ethnig/ieithyddol/diwylliannol amrywiol; cynnal arolygon ac ymchwilio i gwestiynau allweddol; mynd i’r afael â gwrthdaro; herio barn pobl eraill. | Defnyddio technoleg i gyfathrebu’n effeithiol drwy e-bost, rhith-amgylcheddau dysgu, fideo-gynadledda; defnyddio a chreu gwefannau a gwybodaeth ar y we; gweithio gyda phartneriaid ledled y byd; cael gafael ar holiaduron; cynnal arolygon ar-lein i ddysgu mwy am wahaniaethau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol amrywiol ledled Ewrop ac i wneud cymariaethau; defnyddio TGCh i ymchwilio; cyflwyno gwybodaeth. | Canfod, archwilio a dadansoddi data sy’n berthnasol i anghenion a chyd-destun yr astudiaeth, e.e. tystiolaeth o anghydraddoldeb ym maes addysg, y gwasanaethau ac ati sydd ar gael i bobl o gefndir ethnig/diwylliannol gwahanol; gwneud cymariaethau; disgrifio canlyniadau. |

| Cymru, Ewrop a’r Byd: Fframwaith ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru | Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Dealltwriaeth Gyffredin i Ysgolion | Gyrfaoedd a’r byd gwaith: fframwaith ar gyfer dysgwyr 11 i 19 oed yng Nghymru |
|---|---|---|
| **Cymryd rhan mewn trafodaeth am faterion gwleidyddol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys sut maen nhw’n effeithio ar bobl yng Nghymru.** | **Penderfyniadau a dewisiadau**<br>• Trafod materion byd-eang a materion cyfoes.<br>• Archwilio hawliau a chyfrifoldebau trwy astudio confensiynau hawliau dynol rhyngwladol.<br>• Ymchwilio i sut gall pobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau gwleidyddol.<br>• Archwilio sut mae carfanau ymgyrchu a’r cyfryngau yn dylanwadu ar farn gyhoeddus.<br>• Cymryd rhan mewn dadleuon, etholiadau democrataidd a phrosesau ymgynghori.<br>• Deall materion llywodraethu rhyngwladol, y Cenhedloedd Unedig a sefydliadau eraill.<br>• Deall yr angen am gydweithredu rhyngwladol.<br>• Dangos cyfraniad ymarferol yn y gymuned. | **Deall y byd gwaith**<br>• Archwilio goblygiadau stereoteipio ym meysydd cyflogaeth a hyfforddiant, cydnabod manteision agwedd gadarnhaol tuag at wahaniaethau ac amrywiaeth.<br>• Trafod manteision amrywiaeth yn y gweithle a’r anfanteision gellir eu creu trwy stereoteipio.<br>• Deall cyfrifoldebau a hawliau gweithwyr cyflogedig. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfleoedd i ymchwilio i faterion ac ymgysylltu â sefydliadau yng Nghymru sy'n cymryd camau i wella bywydau pobl a chymunedau yn y wlad hon a ledled y byd.** | **Cyfoeth a thlodi**<br>• Archwilio'r berthynas rhwng cyfoeth a thlodi o fewn cymdeithasau a rhyngddyn nhw.<br>• Ymchwilio a thrafod swyddogaeth cymorth rhyngwladol o ran diwallu anghenion sylfaenol cenedlaethau'r dyfodol.<br>• Deall y tensiynau rhwng twf economaidd, datblygu cynaliadwy ac anghenion sylfaenol.<br>• Cwestiynu sut gallai gweithredoedd unigol gynyddu neu leihau tlodi.<br>• Gwerthfawrogi bod tegwch a chyfiawnder yn angenrheidiol mewn cymuned gynaliadwy. | |
| **Cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a/neu chwaraeon ac iddyn nhw elfennau Cymreig a rhyngwladol.** | **Hunaniaeth a diwylliant**<br>• Trysori cyfle cyfartal.<br>• Trafod sut mae amrywiaeth o ran diwylliannau yn cyfoethogi eu cymunedau eu hunain.<br>• Archwilio pwysigrwydd iaith, credoau a gwerthoedd mewn hunaniaeth ddiwylliannol.<br>• Deall sut mae gwahaniaethau diwylliannol yn dylanwadu ar ein safbwyntiau o ran natur, gwyddoniaeth a chymdeithas.<br>• Deall sut gellir trafod a datrys problemau moesol a wynebir gan gymdeithas ac unigolion. | |

**Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16**
- Archwilio dylanwad ac effaith ddwyochrog crefydd ar berthnasoedd, cymunedau a diwylliannau yng Nghymru, Ewrop a'r byd
- Archwilio sut mae crefydd yn ysbrydoli pobl i weithredu mewn modd cadarnhaol o fewn y gymuned leol a'r gymuned fyd-eang
- Ystyried sut mae crefydd, llywodraethau a sefydliadau byd-eang yn effeithio ar gytgord/anghytgord byd-eang

**Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16**
- Archwilio hunaniaeth, perthyn a phwrpas crefyddol/diwylliannol
- Ymchwilio i syniadau, gwerthoedd a chredoau crefyddol/diwylliannol
- Myfyrio ar gwestiynau heriol yn seiliedig ar egwyddorion a gwerthoedd cyffredinol a'u heffaith ar wneud penderfyniadau
- Ymgysylltu â sicrwydd, ymroddiad a gwirionedd crefyddol mewn cymdeithas gyfoes
- Darganfod sut mae crefydd yn dylanwadu ar yr yrfa a ddewisir a'r safonau/ymddygiad a ddisgwylir gan gredinwyr yn eu bywyd gwaith

**ADCDF**

**Ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol**

**Addysg grefyddol 14–19**

**Mynegi ymatebion personol**

**Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion)**

**Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16**
- Gwerthuso sut mae'r amrywiaeth o brofiadau crefyddol/ysbrydol a phenderfyniadau moesol yn effeithio ar fywydau pobl
- Gwerthfawrogi, parchu, empatheiddio â gwerthoedd, credoau a hunaniaeth pobl
- Rhannu agweddau a gwerthoedd cyffredin sy'n cefnogi cydraddoldeb a gofal am y gymuned
- Ymateb yn gadarnhaol i Gymru, Ewrop a byd sy'n amlddiwylliannol ac aml-ffydd
- Archwilio ystod o brofiadau/credoau ysbrydol ac anfaterol sy'n annog newid er gwell

**Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16**
- Datblygu a dangos gwybodaeth a dealltwriaeth cydlynus o Gristnogaeth a'r prif grefyddau y Deyrnas Unedig mewn dull agored er mwyn goleuo gwell cydlyniant cymunedol a dealltwriaeth yn y gweithle
- Datblygu ymwybyddiaeth o gymhlethdod crefydd a'r amrywiaeth o gredoau/safbwyntiau a ddelir
- Ystyried effaith a dylanwad crefydd ar unigolion, cymunedau a chymdeithas, a gwerthuso'r amrywiaeth o ddehongliadau
- Dadansoddi undod ac amrywiaeth o fewn crefyddau a rhwng crefyddau, gan gydnabod y tyndra rhwng undod ac amrywiaeth
- Rhannu ymdeimlad o gymuned trwy gydweithio â chymunedau ffydd lleol ac asiantaethau lleol sy'n ceisio sicrhau cyfiawnder a chydraddoldeb

# ABCh

**CA4/Ôl-16**

- Datblygu agwedd gyfrifol tuag at berthnasoedd
- Deall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd meddwl a ffyrdd o feithrin lles emosiynol

**Ôl-16**

- Datblygu ymwybyddiaeth o hunaniaeth a hunan-werth
- Datblygu cyfres gyson o werthoedd personol, bod â'r hyder i'w rhoi ar waith yn ymarferol
- Deall y cysyniad o gyfrifoldeb moesol a'r angen am werthoedd cyffredin
- Deall problemau moesol a moesegol a wynebir gan gymdeithas; ystyried sut gellir datrys materion o'r fath

**CA4**

- Deall sut mae credoau/gwerthoedd yn effeithio ar hunaniaeth bersonol a ffordd o fyw
- Deall yr amrywiaeth o werthoedd/egwyddorion mae pobl yn byw eu bywydau yn unol â nhw

**CA4/Ôl-16**

- Deall sut gall grwpiau gwirfoddol unigol sicrhau newidiadau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- Deall pwysigrwydd gwybodaeth ddiduedd; bod yn barod i herio safbwyntiau a ledaenir gan y cyfryngau
- Datblygu parch atyn nhw eu hunain/at eraill

**CA4**

- Datblygu parch atyn nhw eu hunain/at eraill
- Trysori amrywiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal; bod yn ddig oherwydd anghyfiawnder, camfanteisio a gwrthod hawliau dynol
- Deall egwyddorion y Datganiad Hawliau Dynol Cyffredinol
- Adnabod/herio'n benderfynol unrhyw fynegiant o ragfarn, hiliaeth a stereoteipio

**CA4**

- Cydnabod hawliau cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion
- Deall y tensiynau rhwng twf economaidd ac anghenion dynol sylfaenol

**Ôl-16**

- Gwerthfawrogi pam mae tegwch a chyfiawnder yn angenrheidiol mewn cymuned cynaliadwy

# Atodiad 4

## Amrywiaeth mewn lleoliadau/ysgolion y Cyfnod Sylfaen – dull o hunanwerthuso[17]

| | Annigonol 1 | 2 | Prin 3 | 4 | Da 5 | 6 | Ardderchog 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amrywiaeth ethnig** | Prin iawn yw'r dystiolaeth o amrywiaeth ethnig a welir yn ein cymdeithas a'r byd ehangach o ran llyfrau, lluniau, doliau ac arddangosiadau. | | O bryd i'w gilydd, mae'r plant yn chwarae gyda theganau neu arteffactau o ddiwylliannau gwahanol i ddiwylliant y mwyafrif ethnig.<br><br>Mae llyfrau, doliau ac arddangosfeydd yn dangos pobl o amrywiaeth o grwpiau ethnig, er bod y delweddau'n ansensitif neu'n stereoteipio, e.e. cenhedloedd eraill mewn gwisgoedd cenedlaethol, pobl o Affrica yn cael eu dangos mewn lleoliad gwledig traddodiadol, doliau duon â nodweddion corfforol pobl wyn. | | Mae plant yn chwarae gydag amrywiaeth eang o arteffactau o ddiwylliannau eraill gwahanol i ddiwylliant y mwyafrif ethnig, e.e. gwisg wrth chwarae drama, coginio a theclynnau bwyta.<br><br>Rhai delweddau/gweithgareddau wedi'u datblygu i ddangos cymaint o bethau sydd gan y plant yn gyffredin â phobl o grwpiau diwylliannol eraill, e.e. pwysleisio'r hyn sy'n debyg rhyngddyn nhw ac nid y gwahaniaethau'n unig.<br><br>Mae llyfrau, lluniau, doliau ac arddangosfeydd weithiau'n dangos pobl o amrywiaeth o grwpiau ethnig mewn swyddogaethau nad ydyn nhw yn stereoteipio, e.e. dangos gwyddonwyr, meddygon a pheirianwyr du neu leiafrifol.<br><br>Mae aelodau'r staff yn ymyrryd yn briodol pan fo rhagfarn yn dod i'r amlwg yn y lleoliad/ysgol. | | Mae aelodau'r staff yn gwneud ymdrech i dynnu sylw at yr hyn sy'n debyg neu'n wahanol mewn pethau a phobl.<br><br>Mae dimensiwn amlddiwylliannol yn cael ei ymgorffori'n rheolaidd mewn gwaith pwnc ac arddangosfeydd.<br><br>Gweithgareddau arbennig wedi'u datblygu i ddeall gwahaniaethau hiliol, e.e. cymysgir paent i gyd-fynd â lliw croen i ddangos cyn lleied yw'r gwahaniaeth.<br><br>Tynnir sylw'r plant yn benodol at lyfrau, lluniau, doliau, ac ati, sy'n dangos pobl dduon a lleiafrifol mewn swyddogaethau nad ydyn nhw'n stereoteipio gan gyfathrebu i blant pa mor normal yw grwpiau/teuluoedd/unigolion o leiafrif ethnig.<br><br>Mae staff/gwirfoddolwyr du ac o leiafrifoedd ethnig yn gweithio'n arferol gyda'r plant. |

| | Annigonol<br>1 | 2 | Prin<br>3 | 4 | Da<br>5 | 6 | Ardderchog<br>7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amrywiaeth crefyddol** | | | Cyflwynir ambell i ŵyl grefyddol i'r plant yn ogystal ag arferion diwylliannol arbennig sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o grefyddau a grwpiau ethnig.<br><br>Mae'r staff yn ymwybodol o ofynion arbennig ar gyfer plant o wahanol gefndiroedd ffydd. | | Mae storïau, digwyddiadau ac arteffactau allweddol o amrywiaeth o ffydd ar gael i'r plant.<br><br>Mae'r staff yn darparu ar gyfer plant o wahanol gefndiroedd ffydd. | | Mae'r plant yn archwilio credoau o amrywiaeth o grefyddau. Maen nhw'n dod i wybod am bobl (arbennig a chyffredin) a oedd/sydd yn ymroddedig i grefydd – yn y gorffennol a heddiw. Anogir nhw i ofyn cwestiynau dyrys am fywyd a chrefydd.<br><br>Mae darpariaeth ar gyfer plant o bob cefndir ffydd yn rhan annatod o bob arferion o ran deiet, gwisg, addoli crefyddol, ac ati. |
| **Amrywiaeth ieithyddol** | Dim ond Cymraeg a Saesneg gall y plant eu clywed a'u gweld yn y lleoliad/ysgol. | | Mae arwydd 'croeso' amlieithog yn mynedfa y lleoliad/ysgol. | | Mae aelodau'r staff yn gwybod pa ieithoedd mae plant a'u teuluoedd yn eu siarad.<br><br>Mae adnoddau ar gael i'r plant mewn amrywiaeth o ieithoedd lleiafrifol, e.e. gwyddorau, siartiau rhif, llyfrau storïau a thapiau dwyieithog. | | Tynnir sylw'r plant yn benodol at amrywiaeth yr ieithoedd sy'n cael eu siarad yn yr ysgol a'r gymuned leol, e.e. drwy arwyddion, labeli a chyfarchion amlieithog a thrwy lyfrau storïau dwyieithog.<br><br>Mae'r staff yn hyrwyddo ieithoedd y gymuned yn ymarferol, e.e. drwy roi siaradwyr yr un iaith yn yr un grwpiau, tapiau storïau, anfon llyfrau storïau dwyieithog adref. |

[17] Addaswyd o dudalennau 119–121 o *Supporting Identity, Diversity and Language in the Early Years* gan Iram Siraj-Blatchford a Priscilla Clarke (Open University Press, 2000)

# Atodiad 5

## Asesu testunau i'w defnyddio yn yr ysgol[18]

| **Elfen**<br>*A yw'r deunyddiau . . .* | **Wedi'i gynnwys yn y testun? (I/N)** | **Camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â hyn** |
|---|---|---|
| Yn cynnwys enghreifftiau/lluniau ac ati sy'n gyfarwydd i grwpiau gwahanol o ddysgwyr? | | |
| Yn rhagfarnllyd? Os felly, sut gellir cyfryngu hyn a'i ddefnyddio i dynnu sylw dysgwyr at ragfarn o'r fath? | | |
| Yn cynrychioli aelodau o wahanol grwpiau lleiafrifol? | | |
| Yn adlewyrchu bywydau bob dydd y dysgwyr mewn ffyrdd nad ydyn nhw'n stereoteipio? | | |
| Yn cynnwys unrhyw dermau difrïol neu arfarnol wrth ddisgrifio pobl o wahanol grwpiau lleiafrifoedd? | | |
| Yn dangos dynion a menywod o wahanol grwpiau lleiafrifoedd mewn gweithgareddau, swyddogaethau, swyddi amrywiol, ac ati? | | |
| Yn cynnwys rhagdybiaethau/agweddau cudd? Os felly, sut gellir defnyddio'r rhain yn sail ar gyfer dadansoddiadau beirniadol? | | |
| Yn cynnwys gwybodaeth/storïau sy'n tynnu sylw at gydraddoldeb? | | |
| Yn cynnwys enghreifftiau cadarnhaol o ddynion, menywod a phlant cyffredin, yn ogystal ag 'arwyr'? | | |

[18] Addaswyd o *Intercultural Education in the Primary School* (National Council for Curriculum and Assessment, 2005)

# Atodiad 6

## Fframwaith i gefnogi'r gwaith o gynllunio iaith a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm[19]

**Cam 1 – Y prif gysyniad**
**Beth ydyn ni eisiau i'r dysgwyr ei ddysgu?**

↓

**Cam 2 – Y darluniau allweddol a'r cyfeirnodau pendant**
**Beth allwn ni ei ddefnyddio i ddangos yr amcan dysgu?**
Er enghraifft, tablau, diagramau, gwrthrychau, ffotograffau, llyfrau cyfeirio, gridiau gwybodaeth, geiriaduron lluniau dwyieithog.

↓

**Cam 3 – Y sgiliau meddwl**
**Pa fath o weithrediadau meddwl ac iaith a ddefnyddir wrth archwilio a deall y cysyniad hwn?**
Gall gynnwys disgrifio, dosbarthu, cymharu, rhesymu, awgrymu a chwestiynu.

↓

**Cam 4 – Y gweithgareddau atgyfnerthu allweddol**
**Pa fath o weithgareddau fydd yn cyd-fynd â'r dulliau meddwl a ddefnyddir?**
Er enghraifft, didoli cardiau lluniau i grwpiau a rhoi rheswm dros eu dosbarthu yn y fath fodd.

↓

**Cam 5 – Yr iaith sydd ei hangen i ymchwilio i'r cysyniad a'i gyfleu (amcanion dysgu iaith)**
**Pa eiriau a geirfa allweddol sydd eu hangen ar y dysgwyr?**
**Beth fydd y gofynion o ran iaith lafar?**
**Pa strwythurau gramadegol allweddol bydd angen i ddysgwyr eu deall a'u defnyddio?**
**Beth fydd y tasgau gwrando?**
**Pa dasgau darllen a gaiff eu cynnwys?**
**A oes unrhyw rwystrau diwylliannol posibl?**
**Pa dasgau ysgrifennu a allai fod yn berthnasol?**

↓

**Cam 6 – Y gweithgaredd atgyfnerthu**
**Pa weithgareddau fydd yn atgyfnerthu'r cysyniad newydd ac yn caniatáu ymarfer defnyddio'r iaith newydd a ddysgwyd?**
Er enghraifft, gridiau gwybodaeth ar gyfer ymarfer geirfa a strwythurau brawddegau newydd.

---

[19] Diolch i Wasanaeth Ieithoedd a Chyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig Abertawe am y canllaw a fu'n sail ar gyfer y siart llif hwn.

# Atodiad 7

## Syniadau ychwanegol ar gyfer cynorthwyo dysgwyr y mae’r Gymraeg/Saesneg yn iaith ychwanegol iddyn nhw

### Cefnogi’r Gymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol

**Cefnogaeth gyd-destunol/weledol**

- Lluniau, gwrthrychau
- Iaith y corff
- Arddangosiadau ymarferol
- Chwarae rôl
- Mapiau meddwl
- Taflenni geirfa, geiriau allweddol wedi’u hamlygu
- Fframiau ysgrifennu, ymadroddion defnyddiol

**Defnyddio iaith**

- Cyfarwyddiadau penodol – ailadrodd mewn gwahanol ffyrdd/gofyn i’r dysgwr ail-ddweud
- Defnyddio geirfa gyson, cystrawennau priodol, ac ati
- Darparu geiriau/ymadroddion allweddol
- Modelu iaith, ailadrodd
- Gwirio dealltwriaeth, cwestiynu
- Rhoi amser i ateb
- Rhybuddio am gwestiynau/tasgau er mwyn rhoi amser i baratoi

**Adnoddau**

- Arddangos geirfa
- Arddangos gwybodaeth am famwledydd
- Gwneud llyfrau dwyieithog ac ati
- Uniaethu â phrofiadau’r dysgwyr
- Defnyddio adnoddau o’r cartref/y gymuned leol

**Cymdeithasol/diwylliannol**

- Darparu cyfeillion cyfoed
- Cynnwys dathliadau diwylliannol/crefyddol ar gyfer pob dysgwr
- Creu cyfleoedd i ddefnyddio iaith – grwpiau bychain, ac ati
- Gwerthfawrogi’r bartneriaeth rhwng y cartref a’r ysgol

# Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r holl athrawon, ysgolion, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sydd wedi cynorthwyo i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Hoffai APADGOS ddiolch yn arbennig i awdurdod lleol Wrecsam; Canolfan Iaith Uwchradd, Gwynedd; Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig Gwent; a Gwasanaeth Ieithoedd a Chyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig Abertawe.

Hoffai APADGOS ddiolch yn arbennig i'r ysgolion canlynol a ddarparodd ddeunydd astudiaethau achos:

Ysgol Emmanuel, Sir Ddinbych
Ysgol Gynradd Cwmlai, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Caerdydd
Ysgol Uwchradd Dyffryn, Casnewydd
Ysgol Uwchradd Eirias, Conwy
Ysgol y Moelwyn, Gwynedd.

Hoffai APADGOS gydnabod y rhai canlynol hefyd am ganiatâd i atgynhyrchu eu gwaith/deunydd hawlfraint yn y canllawiau hyn:

Achub y Plant/Save the Children
Cenhedloedd Unedig
Charlotte Jones, Arlunydd, Sir Ddinbych
Gwasg y Brifysgol Agored/Open University Press
National Council for Curriculum and Assessment, Dulyn
National Society for Education in Art and Design
Trentham Books.